# Adroddiad Trosedd Casineb a Throseddau yn Erbyn Pobl Hŷn

2009- 2010

CANGEN GWYBODAETH REOLI

# Mynegai


| | |
|---|---|
| Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus | 2 |
| Crynodeb Gweithredol | 3 |
| Cyflwyniad | 5 |
| Prif Ganfyddiadau Trosedd Casineb | 7 |
| Trosedd a Waethygir Ar Sail Hil a Chrefydd | 16 |
| Prif Ganfyddiadau Gwaethygiad Hiliol a Chrefyddol | 17 |
| Trosedd Homoffobig a Thrawsffobig | 26 |
| Prif Ganfyddiadau Trosedd Homoffobig | 28 |
| Trosedd Casineb Anabledd | 37 |
| Prif Ganfyddiadau Trosedd Casineb Anabledd | 38 |
| Troseddau Yn Erbyn Person Hŷn | 47 |
| Prif Ganfyddiadau Troseddau Yn Erbyn Person Hŷn | 48 |
| Atodiad 1: Erlyniadau yn ôl Grŵp ac Ardal | 55 |
| Atodiad 2: Erlyniadau TEPH yn ôl Grŵp ac Ardal | 59 |
| Geirfa | 60 |

# Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Rwyf yn croesawu trydydd adroddiad blynyddol trosedd casineb Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Mae trosedd casineb yn niweidio unigolion, cymunedau a chymdeithas. Mae'r hyn sy'n dechrau fel galw enwau 'lefel isel' yn gallu dwysáu i niwed difrifol a marwolaeth hyd yn oed. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth allweddol i'r cyhoedd am ein perfformiad wrth erlyn y troseddau niweidiol hyn ac yn dangos ein bod yn parhau i wella. Mae'r CPS yn gwella wrth ddynodi achosion o drosedd casineb, ac mae mwy o ddioddefwyr yn cefnogi'r broses cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod lle i wella a dim bwlch ar gyfer hunanfoddhad, felly rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i wella ansawdd ein herlyniadau ym mhob achos trosedd casineb, ac i roi sylw i ddiogelwch dioddefwyr a materion cefnogaeth. Rwyf fi, felly, yn hyderus y byddwn yn gweld cynnydd pellach yn y nifer o achosion sy'n cael eu herlyn yn llwyddiannus gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn y blynyddoedd nesaf.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ein perfformiad wrth erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn. Mae'r troseddau hyn yn digwydd yng nghyd-destun poblogaeth sy'n heneiddio ble mae pobl h n yn gallu profi agweddau negyddol a rhagfarnllyd, hyd yn oed. Mae erlyniad effeithiol a llwyddiannus o droseddau yn erbyn pobl hŷn yn fater cydraddoldeb oedran ac rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan wrth herio agweddau negyddol tuag at bobl hŷn a amlygir fel troseddau yn eu herbyn. Mae'r ffigyrau hyn yn galonogol ac yn dangos bod nifer fawr a chynyddol o droseddau yn erbyn pobl h n wedi'u herlyn a'n cyfradd canlyniad llwyddiannus wedi gwella yn 2009-2010.

Mae'r data a gynhwyswyd yn yr adroddiad hwn yn ymgorffori ysbryd Safonau Ansawdd Craidd y CPS, yn rhoi atebolrwydd a thryloywder i'r cyhoedd ac yn enwedig pobl a chymunedau sy'n cael eu heffeithio gan drosedd casineb a throseddau yn erbyn pobl hŷn.

Yn 2009-10 parhaodd y CPS i weithio'n agos gydag adrannau llywodraeth eraill, asiantaethau a'r sector wirfoddol. Mae hyn yn bwysig oherwydd os yw ein dull o drin trosedd casineb i lwyddo, rhaid iddo fod yn wirioneddol draws-lywodraeth ac aml-asiantaeth.

Mae fy niolch yn mynd i'r holl erlynyddion Ardal ac adfocatiaid sy'n delio â'r achosion hyn a'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda ni i ddarparu cymorth i ddioddefwyr. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys enghreifftiau o arfer da iawn wrth erlyn trosedd casineb a throseddau yn erbyn pobl hŷn. Fy nod ar gyfer y dull hwn yw iddo fod yn un arferol i Wasanaeth Erlyn y Goron.

**Keir Starmer QC**
**Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus**

# Crynodeb Gweithredol

Dyma drydydd Adroddiad Trosedd Casineb Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ac mae'n cyflwyno gwybodaeth am berfformiad y CPS wrth erlyn trosedd casineb hiliol a chrefyddol, trosedd trawsffobig a homoffobig a throsedd casineb anabledd. Mae data hefyd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn ynglŷn ag erlyniadau ble mae troseddau yn erbyn unigolyn h n wedi'u dynodi.

Daw data'r CPS o system weinyddol TG y CPS, ac maent yn cael eu defnyddio i reoli perfformiad mewnol. Fel y cyfryw, ni ddylid cyfri'r rhain fel ystadegau swyddogol y Llywodraeth. Fel gydag unrhyw system gofnodi graddfa fawr, mae'r data'n destun i wallau posib gyda mewnbynnu a phrosesu data. Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro ac yn destun i newid fel bo rhagor o wybodaeth yn cael ei chofnodi gan y CPS.

## Trosedd casineb: Prif ganfyddiadau cyffredinol

- Yn y pedair blynedd a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2010, erlynwyd dros 53,600 o ddiffynyddion am droseddau casineb
- Cynyddodd y gyfradd euogfarnu o 77% yn 2006 - 07 i 82% yn 2009-10
- Cododd pledion euog o 64% i 70%
- Cynyddodd y gyfradd o achosion a fethodd oherwydd rhesymau allweddol fel materion dioddefwyr (yn cynnwys tynnu'n ôl, ddim yn mynychu a thystiolaeth dioddefwr ddim yn cael ei gefnogi), rhyddfarnau ar ôl treial ac elfen gyfreithiol hanfodol ar goll, o 63% i 67% o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus
- Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion ar draws y meysydd trosedd casineb yn ddynion.
- Mae data ar ddemograffeg dioddefwyr yn llai dibynadwy ac wrthi'n cael ei ddatblygu o hyd. Fodd bynnag, ble gwyddys y rhyw, dynion oedd y gyfran fwyaf o ddioddefwyr ar draws yr holl feysydd, ar 68% o'r cyfanswm
- Y troseddau oedd yn cael eu herlyn yn fwyaf cyffredin oedd troseddau corfforol a throseddau trefn gyhoeddus (43% a 40% o'r cyfanswm yn ôl eu trefn)
- Roedd 75% o ddiffynyddion trosedd casineb yn perthyn i'r Categori Gwyn Prydeinig, a 79% wedi'u categoreiddio yn Wyn
- Roedd 50% o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed a 30% rhwng 18 – 24 oed.

## Trosedd hiliol a chrefyddol - prif ganfyddiadau

- Yn y pedair blynedd a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2010, erlynwyd dros 48,400 o ddiffynyddion am droseddau yn cynnwys trosedd hiliol neu grefyddol.
- Cododd euogfarnau o 77% yn 2006-07 i dros 82% yn 2009-10.
- Cododd pledion euog o 64% i 70%.
- Roedd y rhesymau mwyaf cyffredin dros ganlyniadau aflwyddiannus yn cynnwys rhyddfarnu a'r dioddefwr ddim yn mynychu'r llys.Cynyddodd yr achosion a fethodd oherwydd materion dioddefwyr yn cynnwys dioddefwr yn tynnu'n ôl, a'r achosion hynny ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwyr yn cefnogi'r achos o 20% i 22%.
- Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn ddynion ar 83%.
- Troseddau corfforol a throseddau trefn gyhoeddus oedd y rhai mwyaf cyffredin (83%).
- Yn 2009-10, roedd 75% o ddiffynyddion trosedd ar sail hil a chrefydd yn perthyn i'r Categori Gwyn Prydeinig.
- Roedd 50% o ddiffynyddion rhwng 25 – 59 oed a 30% rhwng 18-24 oed.

## Trosedd homoffobig a thrawsffobig - prif ganfyddiadau

- Yn y pedair blynedd a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2010, erlynwyd dros 3,900 o ddiffynyddion am droseddau homoffobig neu drawsffobig
- Dros yr un cyfnod, cynyddodd euogfarnau o 74% i 81%
- Cododd pledion euog o 58% i 68%
- Rhyddfarnau, gwrthdaro tystiolaeth a thystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos oedd i gyfrif am y rhan fwyaf o ganlyniadau aflwyddiannus
- Cynyddodd y nifer a chyfran o ganlyniadau aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr o 06-07 i 09-10.
- Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn ddynion (85%)
- Troseddau corfforol oedd y troseddau mwyaf cyffredin
- Roedd 75% o ddiffynyddion yn perthyn i'r Categori Gwyn Prydeinig.
- Roedd 45% o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed a 31% rhwng 18-24 oed.

## Trosedd casineb anabledd - prif ganfyddiadau

- Yn y tair blynedd a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2010, erlynwyd 1,200 o ddiffynyddion am drosedd casineb anabledd
- Bu i 76% o achosion ddiweddu mewn euogfarn
- Y gyfradd pledion euog oedd 66%.
- Roedd rhyddfarnau yn dilyn treial ac elfen gyfreithiol hanfodol ar goll yn cyfrif am fwy o ganlyniadau aflwyddiannus na materion dioddefwr
- Roedd 83% o ddiffynyddion a erlynwyd yn ddynion
- Troseddau corfforol oedd y troseddau mwyaf cyffredin. Roedd trefn gyhoeddus, lladrad a thrin nwyddau wedi'u dwyn hefyd yn gyffredin
- Roedd 72% o ddiffynyddion yn perthyn i'r Categori Gwyn Prydeinig
- Roedd 51% o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed a 24% rhwng 18-24 oed.

## Troseddau yn erbyn unigolion h n - prif ganfyddiadau

- 2009 - 10 yw'r ail flwyddyn y cofnodwyd gwybodaeth perfformiad am droseddau yn erbyn pobl h n
- Yn y ddwy flynedd a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2010, erlynwyd 2,997 o ddiffynyddion am droseddau yn erbyn unigolyn h n
- Bu i 82% o achosion ddiweddu mewn euogfarn
- Y gyfradd pledion euog oedd 72%
- Roedd 16% o ganlyniadau aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwr
- Roedd 79% o'r diffynyddion a erlynwyd yn ddynion
- Troseddau yn erbyn eiddo (gan gynnwys y categorïau dwyn, lladrad, byrgleriaeth a ffugiad) oedd y troseddau mwyaf cyffredin
- Troseddau corfforol oedd y categori sengl mwyaf
- Roedd 63% o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed a 22% rhwng 18 – 24 oed
- Roedd 76% o ddiffynyddion yn perthyn i'r Categori Gwyn Prydeinig.

# Cyflwyniad

Mae'r CPS yn amcanu at adeiladu hyder mewn cymunedau sydd wedi'u heffeithio gan drosedd casineb a gwella tryloywder yn ei ddull. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth glir i'r cyhoedd a chymunedau sydd wedi'u heffeithio'n benodol ynglŷn â gwaith y CPS wrth ymdrin â throsedd casineb, a manylion ei berfformiad wrth erlyn trosedd casineb. Cyflwynir y data gorau sydd ar gael ac mae bylchau'n cael eu dynodi.

Dyma'r trydydd adroddiad Trosedd Casineb blynyddol (CPS) ac mae'n rhoi gwybodaeth am ein perfformiad wrth erlyn y troseddau canlynol yn 2009-10:

- Trosedd casineb hiliol a chrefyddol
- Trosedd casineb homoffobig a thrawsffobig
- Trosedd casineb anabledd

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ein perfformiad wrth erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn.

## Trosedd casineb – y cyd-destun ehangach

Yn ystod 2009-2010 gweithiodd y CPS â phartneriaid cyfiawnder troseddol ac ar draws y llywodraeth i gyflenwi ei weithredoedd yng Nghynllun Gweithredu Trosedd Casineb y Swyddfa Gartref a gafodd ei lansio ym Medi 2009. Yn dilyn yr Etholiad Gyffredinol, mae'r CPS wedi bod yn aelod allweddol o'r Bwrdd Strategaeth Trosedd Casineb traws-doriadol, a noddir gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref, sy'n dod â swyddogion ynghyd o wahanol rannau o'r Llywodraeth, darparu arweinyddiaeth i'r agenda hwn a chydlynu strategaeth a gweithredu i rwystro ac ymdrin â throsedd casineb.

*Ymgysylltu cymunedol wrth erlyn trosedd casineb*
Yn 2009-2010 parhaodd y CPS i ddatblygu'r dull panel craffu trosedd casineb i gael gwelliant parhaus drwy ymgysylltu cymunedol dwys. Mae'r Paneli Craffu Trosedd Casineb yn cynnwys y CPS, rhanddeiliaid cymunedol, hwylusydd annibynnol a chynghorwr cyfreithiol. Mae aelodau cymunedol yn cael eu tynnu o grwpiau lleol sydd â phrofiad uniongyrchol o drosedd casineb. Maent yn ystyried yr hyn aeth yn dda a ddim cystal, a p'un a oes unrhyw wersi i'w dysgu ar gyfer y dyfodol. Mae effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y paneli hyn yn cael ei adolygu yn ystod 2010-2011 gyda'r bwriad o wneud gwelliannau pellach i'r broses.

Mae paneli ymgysylltu Cymunedol y CPS hefyd wedi'u sefydlu ar draws y wlad. Maent ar sail ranbarthol, a chanddynt fwy o ffocws cyffredinol ar fusnes, perfformiad a strategaeth y CPS. Mae gan y Paneli hyn rôl bwysig wrth fonitro a gwella perfformiad y CPS a chraffu gwybodaeth perfformiad lleol i wneud argymhellion ar gyfer gwelliant.

Ymgynghorir â'r Fforwm Atebolrwydd Cymunedol cenedlaethol y CPS ynghylch datblygiadau polisi trosedd casineb pwysig.

*Gwelliant parhaus drwy reoli perfformiad*
2009-10 oedd yr ail flwyddyn o asesu perfformiad Ardaloedd yn erbyn y dangosydd trosedd casineb ar draws y meysydd sy'n cael eu monitro. Roedd bob Ardal yn cael ei hasesu bob chwe mis, gydag adroddiadau i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a'r Prif Weithredwr, naill ai drwy adroddiad ysgrifenedig neu gyfarfod. Cafodd pob Ardal o leiaf un cyfarfod y flwyddyn.

Yn 2010-11 mae'r CPS yn symud i ffwrdd oddi wrth dargedau perfformiad sydd wedi'u rheoli'n ganolog tuag at system fesur dilysu sy'n rhoi gwybodaeth perfformiad ar lefel ranbarthol, ac sy'n canolbwyntio ar yrru gwelliannau i lawr i Ardaloedd lleol. O ganlyniad mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data ar lefel ranbarthol, neu Grŵp, ac ar lefel Ardal CPS.

*Cynyddu ymwybyddiaeth a hyfforddiant*
Ym Mai 2009, datblygodd a chyhoeddodd y CPS daflenni gwybodaeth sydd wedi'u hanelu at ddioddefwyr trosedd casineb a sefydliadau sy'n eu cefnogi. Ym Mawrth 2010 lansiodd y CPS fodiwl e-ddysgu trosedd casineb, sydd yn addysg gofynnol i holl erlynyddion y CPS. Cynhaliwyd seminarau i roi sylw i ddatblygiad polisi ac ymarfer diweddaraf ar gyfer yr holl gydlynwyr trosedd casineb yn Nhachwedd 2009 a Mawrth 2010. Mae hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth ar gyfer erlynyddion arbenigol yn cael ei gwblhau a'i gyflwyno'n raddol yn hwyrach yn 2010-2011.

I

# Prif Ganfyddiadau Trosedd Casineb

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi adrodd ynghylch ei berfformiad mewn perthynas ag erlyn trosedd casineb a thrais domestig fel rhan o'r adolygiad perfformiad ers 2005. O 2007, adroddwyd ar y ffigyrau trais domestig yn yr Adroddiad Blynyddol Trais yn Erbyn Merched. Mae ffigyrau ar gyfer cyfnodau cynharach wedi'u hadolygu yn yr adroddiad presennol i eithrio trais domestig, a thrwy hynny roi darlun mwy cywir o weithgaredd erlyn trosedd casineb. Mae data perfformiad ar droseddau casineb yn cael eu cofnodi yn y System Rheoli Achosion Compass, a'u tynnu o'r System Gwybodaeth Reolaeth Compass cysylltiedig.


Mae'r data CPS yn cael ei dynnu o system weinyddol TG y CPS, ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rheolaeth perfformiad mewnol. Felly, ni ddylid ystyried y data hwn fel ystadegau swyddogol y Llywodraeth; yn yr un modd ag unrhyw system gofnodi graddfa fawr, mae anghywirdebau'n gallu digwydd o ganlyniad i wallau wrth gofnodi a phrosesu'r data. Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro ac yn destun i newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei gofnodi gan y CPS.

Mae erlyniadau a gwblhawyd yn dod i mewn i ddau gategori: euogfarnau, sy'n cynnwys pledion euog, euogfarnau ar ôl treial ac achosion wedi'u profi yn absenoldeb y diffynnydd; a chanlyniadau aflwyddiannus, sy'n cynnwys yr holl ganlyniadau eraill yn cynnwys dirwyn i ben, cwblhau'r gwaith gweinyddol, achosion traddodi a ryddhawyd, gwrthod achosion ar ôl treial, a gwrthod achosion am nad oes achos i'w ateb, rhyddfarnau gan y barnwr a rhyddfarnau rheithgor.
Cyhuddo:

Cafodd cyhuddo statudol o ddiffynyddion gan y CPS ei gyflwyno'n llawn yn Ebrill 2006. Yn y pedair blynedd yn dilyn y dyddiad hwnnw cynyddodd y nifer o achosion a ddynodwyd fel rhai'n cynnwys troseddau casineb a gafodd eu cyfeirio at y CPS am benderfyniad cyhuddo o 6% (887).

Cynyddodd y gyfran o achosion a gyhuddwyd o 59.4% o achosion trosedd casineb a gyfeiriwyd at y CPS yn 2006- 07 i 70.8% yn 2009-10. Mae'r gyfran o achosion a gyhuddwyd ym mhob maes casineb yn cael eu hadrodd yn y rhan berthnasol yr adroddiad hwn. Roedd cyfraddau cyhuddo'n amrywio ar draws y meysydd. Yn 2009-10, cafodd 71.3% o droseddau ar sail hil a chrefydd eu cyhuddo o'i gymharu â 66.1% o droseddau homoffobig a 70.3% o drosedd casineb anabledd.

**Tabl 1 – Penderfyniadau Cyn-Cyhuddo ***




| | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Cyhuddwyd | 8,390 | 59.4% | 10,060 | 69.4% | 9,675 | 72.3% | 10,627 | 70.8% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 297 | 2.1% | 150 | 1.0% | 95 | 0.7% | 104 | 0.7% |
| Dim erlyniad | 2,919 | 20.7% | 2,773 | 19.1% | 2,167 | 16.2% | 2,581 | 17.2% |
| Pob penderfyniad arall | 2,527 | 17.9% | 1,511 | 10.4% | 1,442 | 10.8% | 1,708 | 11.4% |
| **Cyfanswm** | **14,133** | | **14,494** | | **13,379** | | **15,020** | |

*Cafodd Cyhuddo Statudol ei gyflwyno'n llawn ar 3 Ebrill 2006
* Nid yw'r ffigyrau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad 2007-08 yn cynnwys yr achosion hynny ble na ddaliwyd yn llawn ddeilliant y penderfyniad yng nghofnodion y CPS. Er mwyn cyflawnrwydd, nid yw'r canlyniadau hyn wedi'u hychwanegu at yr adroddiad presennol. Mae'r ffigyrau uchod felly'n wahanol i adroddiad 2007- 08.

## Euogfarnau

Yn y pedair blynedd yn diweddu ym Mawrth 2010, erlynwyd dros 53,600 o ddiffynyddion am droseddau casineb. Mae tabl a siart 2 isod yn rhoi dadansoddiad o erlyniadau dros y cyfnod pedair blynedd, yn dangos bod euogfarnau wedi cynyddu o 77% yn 2006 - 07 i 82% yn 2009-10.

**Tabl 2 - Erlyniadau wedi'u Cwblhau yn ôl Canlyniad**




| | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 9,621 | 76.8% | 11,317 | 79.8% | 10,690 | 82.0% | 11,405 | 81.9% |
| Aflwyddiannus | 2,914 | 23.2% | 2,869 | 20.2% | 2,340 | 18.0% | 2,516 | 18.1% |
| **Cyfanswm** | **12,535** | | **14,186** | | **13,030** | | **13,921** | |

Mae'r tabl a siartiau isod yn dangos dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyn ar gyfer troseddau casineb yn 2009 - 10. Bydd cymariaethau o ganlyniadau yn 2009-10 a blynyddoedd cynt i'w canfod mewn penodau sy'n trafod troseddau hiliol a chrefyddol, trosedd casineb homoffobig a thrawsffobig ac anabledd, sy'n dilyn. Yn y cyfnod pedair blynedd a oedd yn diweddu ym Mawrth 2010 cynyddodd pledion euog o 64.0% i 69.7%, yn cyfrannu at well cyfradd euogfarn gyffredinol o 82% yn 2009-10. Gostyngodd erlyniadau a gafodd eu gollwng gan y CPS, gan gynnwys rhyddfarnau gan y barnwr, terfynu achosion, a'r rheiny ble na chynigwyd tystiolaeth, o 14.6% i 10.6%.


**Tabl 3 - Canlyniadau erlyn**


| | 2009-10 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| *Erlyniadau a Ollyngwyd gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl* | *1,482* | *10.6%* |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *807* | *5.8%* |
| Gwrthodwyd yn dilyn treial llawn | 551 | 4.0% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 51 | 0.4% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 210 | 1.5% |
| Yr holl ganlyniadau aflwyddiannus eraill | 222 | 1.6% |
| **Canlyniadau Aflwyddiannus** | **2,516** | **18.1%** |
| Ple euog | 9,700 | 69.7% |
| Euogfarnu yn dilyn treial | 1,657 | 11.9% |
| Profwyd yn absenoldeb | 48 | 0.3% |
| **Euogfarnau** | **11,405** | **81.9%** |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **13,921** | |

## Erlyn yn ôl y math o drosedd casineb:

Mae'r tabl a'r siartiau isod (4) yn dangos erlyniadau'n ôl math o drosedd casineb o 2006- 07 i 2009-10. Troseddau ar sail hil a chrefydd oedd y gyfran fwyaf o'r cyfanswm ar 93% yn 2006-07 ac 87% yn 2009-10. Dechreuodd y dasg o gasglu data ar gyfer troseddau casineb anabledd yn Ebrill 2007.

**Tabl 4 – Erlyniadau a gyflawnwyd yn ôl math o drosedd casineb**




| | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Hil a Chrefyddol | 11,713 | 93.4% | 13,008 | 91.7% | 11,624 | 89.2% | 12,131 | 87.1% |
| Homoffobig | 822 | 6.6% | 995 | 7.0% | 1,013 | 7.8% | 1,152 | 8.3% |
| Trosedd casineb tuag at bobl Anabl | 0 | 0.0% | 183 | 1.3% | 393 | 3.0% | 638 | 4.6% |
| **Cyfanswm** | **12,535** | | **14,186** | | **13,030** | | **13,921** | |

## Erlyniadau aflwyddiannus:

Gall achosion fethu oherwydd rhesymau tystiolaethol, (e.e. gwrthdaro mewn tystiolaeth), rhesymau diddordeb cyhoeddus, (e.e. iawn wedi'i wneud am y golled neu'r niwed, neu ble y gellid cael effaith negyddol ar iechyd corfforol neu feddyliol y dioddefwr), gan nad yw'r achos yn gallu mynd yn ei flaen, (e.e. y dioddefwr yn gwrthod rhoi tystiolaeth neu'n tynnu'n ôl), oherwydd bod achosion yn destun i gwblhau'r gwaith gweinyddol, (e.e. gwarant mainc am arestiad diffynnydd yn parhau heb ei weithredu, neu'r diffynnydd wedi marw), a rhesymau eraill. Yn 2009-10, roedd 5.0% o ganlyniadau aflwyddiannus oherwydd rhesymau gweinyddol a 30.6% oherwydd rhesymau tystiolaethol, sy'n is na'r blynyddoedd blaenorol; roedd 11.4% yn aflwyddiannus oherwydd rhesymau diddordeb cyhoeddus; 19.8% ddim yn gallu mynd ymlaen, a 33.1% yn y categori rhesymau eraill, sy'n uwch na'r blynyddoedd blaenorol.

Mae Tabl 5 yn rhoi dadansoddiad mwy manwl, yn dangos y gyfradd a fethodd oherwydd materion dioddefwyr (gan gynnwys dioddefwr yn tynnu'n ôl ac achosion ble na fu i'r dioddefwr fynychu'r gwrandawiad llys), rhai ble roedd gwrthdaro mewn tystiolaeth; ble roedd elfen gyfreithiol hanfodol ar goll; ble roedd y diffynnydd yn destun ditmentau neu ddedfrydau yn achos achosion eraill, a rhyddfarnau ar ôl treial. O fewn y rhesymau allweddol hyn, roedd rhyddfarnau ar ôl treial yn parhau i fod y categori mwyaf, yn cynyddu o 20.0% yn 2006-07 i 27.7% yn 2009-10, tra'r oedd cynnydd tebyg yn y gyfradd a fethodd oherwydd materion dioddefwyr, o 19.6% i 21.1%. O fewn y cyfanswm hwn cynyddodd y cyfrannau a fethodd oherwydd na fu i'r dioddefwr fynychu o 7.5% i 9.8%, tra y bu i'r rheiny fu'n aflwyddiannus oherwydd bod y dioddefwr wedi tynnu'n ôl neu dystiolaeth y dioddefwyr ddim yn cefnogi achos yr erlyniad aros tua'r un peth. Fodd bynnag, gostyngodd achosion yn methu oherwydd bod elfen gyfreithiol hanfodol ar goll o 13.1% i 9.7%. Bu i'r gyfran a fethodd oherwydd rhesymau allweddol godi bron i 5 pwynt canrannol o 62.5% i 67.4%.

### Tabl 5 – Prif Resymau dros Erlyniadau Aflwyddiannus

| | 2009-10 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu Cyhuddiad yn ôl | 143 | 5.7% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 246 | 9.8% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi achos | 142 | 5.6% |
| **Cyfanswm Materion gyda Dioddefwyr** | **531** | **21.1%** |
| Gwrthdrawiad Tystiolaeth | 151 | 6.0% |
| Elfen Gyfreithiol Hanfodol ar Goll | 244 | 9.7% |
| Ditiad/Dedfryd Arall | 74 | 2.9% |
| Rhyddfarnu yn dilyn treial | 697 | 27.7% |
| *Cyfanswm Rhesymau Allweddol* | *1,697* | *67.4%* |
| Pob Rheswm Arall | 692 | 27.5% |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 127 | 5.0% |
| **Cyfanswm** | **2,516** | |

Mae'r dadansoddiad o resymau dros bob maes unigol o drosedd casineb yn cael ei adrodd yn y rhan berthnasol o'r adroddiad hwn. Roedd gwahaniaethau mewn prif resymau ar draws y meysydd. Tra'r oedd cynnydd mewn methiannau achos oherwydd materion dioddefwyr mewn troseddau homoffobig, mewn trosedd casineb anabledd roedd gostyngiad o 6.6 y cant mewn canlyniadau aflwyddiannus am y rhesymau hyn. Rhyddfarnau ar ôl treial ac absenoldeb elfen gyfreithiol hanfodol oedd y rhesymau mwyaf eraill dros fethiannau ar draws yr holl feysydd.

Mae Tabl 6 yn dangos nifer a chyfran materion dioddefwyr mewn cyswllt â'r holl ganlyniadau. Gostyngodd methiannau achos oherwydd anawsterau dioddefwr, o 570, neu 4.5%, yn 2006- 07 i 531, neu 3.8%, yn 2009-10. Gostyngodd y cyfanswm o ganlyniadau aflwyddiannus o 23% yn 2006- 07 i 18% yn 2009 - 10.

**Tabl 6 – Cymhariaeth o'r Prif resymau dros Ganlyniadau Aflwyddiannus**

| | 2009-10 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| *Cyfanswm Aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr* | *531* | *3.8%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 2,516 | 18.1% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 11,405 | 81.9% |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **13,921** | |

## Categori'r prif drosedd:

Ar ddiwedd achosion, mae bob achos diffynnydd yn cael ei ddyrannu i Brif Gategori Trosedd, i ddangos y math a difrifoldeb y cyhuddiadau sydd wedi'u dwyn.

Troseddau corfforol a throseddau trefn gyhoeddus oedd y categorïau mwyaf niferus, yn cynrychioli 82% o erlyniadau trosedd casineb yn 2009-10 (42% a 40% yn ôl eu trefn). Roedd difrod troseddol yn cyfrif am 5% pellach. Cofnodwyd patrwm tebyg ar gyfer dynion, gyda 42% yn cael eu categoreiddio fel troseddau corfforol, 40% fel trefn gyhoeddus a 6% fel difrod troseddol. Roedd patrwm ychydig yn wahanol ar gyfer merched, gyda throseddau corfforol yn uwch ar 45% a difrod troseddol yn is ar 4%. Fodd bynnag roedd troseddau trefn gyhoeddus yn debyg ar 40%. Cofnodwyd 4% pellach o erlyniadau yn erbyn merched yn y categori dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn. Dynion oedd 82% o ddiffynyddion â phrif droseddau wedi'u dynodi fel troseddau corfforol a threfn gyhoeddus, ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol.

Troseddau corfforol oedd y categori mwyaf o'r holl feysydd trosedd casineb (42% ar gyfer achosion ar sail hil a chrefydd, 48% ar gyfer troseddau casineb homoffobig a 52% ar gyfer troseddau casineb anabledd) gyda threfn gyhoeddus yr ail fwyaf ar gyfer ar sail hil a chrefydd ac achosion homoffobig (41% a 38%). Roedd troseddau trefn gyhoeddus hefyd yr ail gategori mwyaf mewn trosedd casineb anabledd ar 11% fodd bynnag roedd troseddau lladrad a dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn yn cyfrif am 15% pellach. Roedd troseddau rhywiol yn cyfrif am 6% pellach.


## Data Cydraddoldeb

### *(i) Diffynyddion*

#### Rhyw

Mae Tabl 7 yn rhoi dadansoddiad o ryw'r diffynyddion a dioddefwyr yn eu tro. Bu gostyngiad bach yn y gyfradd o ddynion a erlynwyd o 85% yn 2006-07 i 83% yn 2009-10. Yn yr ail gyfnod, dynion oedd 83% o ddiffynyddion mewn troseddau ar sail hil a chrefydd, 85% mewn troseddau homoffobig ac 83% mewn troseddau anabledd.

**Tabl 7 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw'r Diffynnydd**




| | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 1,887 | 15.1% | 2,137 | 15.1% | 2,020 | 15.5% | 2,344 | 16.8% |
| Dynion | 10,645 | 84.9% | 12,047 | 84.9% | 11,007 | 84.5% | 11,573 | 83.1% |
| Ni wyddys | 3 | 0.0% | 2 | 0.0% | 3 | 0.0% | 4 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **12,535** | | **14,186** | | **13,030** | | **13,921** | |

#### Ethnigrwydd

Mae data ar ethnigrwydd y diffynnydd yn cael ei gasglu gan y CPS yn unol â diffiniadau System Cyfiawnder Troseddol cytunedig ar gyfer yr 16+1 categori ethnig. Parhaodd y cyfrannau ym mhob categori yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Yn 2009-10, dynodwyd bod 75% o ddiffynyddion trosedd casineb yn perthyn i'r Categori Gwyn Prydeinig, a 79% wedi'u categoreiddio yn Wyn. Dynodwyd 5% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a 5% pellach yn Ddu. Ni wnaeth 4% o ddiffynyddion ddatgan ethnigrwydd ar arestiad, ac mewn 5% o achosion pellach ni wnaeth yr heddlu ddarparu'r ethnigrwydd i'r CPS.

#### Oed


Mae data ar oed diffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS gan gyfeirio at gyfres o fandiau oed. Ni ellir dadelfennu oed o'r bandiau hyn. Diffynyddion rhwng 18-24 oed (30%) a'r rhai rhwng 25- 59 oed (50%) oedd y categorïau mwyaf niferus, patrwm tebyg i 2007 - 08 ar 30% a 45% yn ôl eu trefn. Roedd 16% pellach rhwng 14-17 oed, is nag yn 2007- 08 pan oedd 21% o ddiffynyddion wedi'u cofnodi yn y categori hwn. Roedd oedran yn amrywio ar draws y meysydd, mewn troseddau hiliol a chrefyddol cofnodwyd patrwm tebyg ond gyda throseddau casineb homoffobig ac anabledd roedd 76% a 75% o ddiffynyddion yn ôl eu trefn wedi'u cofnodi ym mandiau oed 18-24 a 25 - 59 (18 – 59) â 21% a 22% pellach yn 17 oed neu lai.

### *(ii) Dioddefwyr*

**Rhyw**

Mae tabl 8 yn dadansoddi rhyw'r dioddefwyr. Cafwyd y data ar ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion, a dim ond ers Ebrill 2006 mae ar gael. Mae cofnodi rhyw wedi gwella o 35% o ddioddefwyr yn 2006-07 i 80% yn 2009-10. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon, tra'n gwella, yn dal i gael ei ddatblygu. O'r dioddefwyr hynny y dynodwyd eu rhyw mae'r gyfran uchaf yn ddynion, ar 71% yn 2006- 07 a 68% yn 2009-10. Ble fo rhyw wedi'i ddynodi, roedd 70% o ddioddefwyr troseddau ar sail hil a chrefydd yn ddynion, 60% yn ddynion mewn troseddau homoffobig, a 51% yn ddynion mewn troseddau casineb anabledd.

**Tabl 8 – Rhyw Dioddefwyr ***




| | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 424 | 10.2% | 1,188 | 14.2% | 1,878 | 21.1% | 2,736 | 25.7% |
| Dynion | 1,033 | 24.9% | 2,502 | 30.0% | 3,796 | 42.6% | 5,790 | 54.4% |
| Ni wyddys | 2,685 | 64.8% | 4,653 | 55.8% | 3,233 | 36.3% | 2,115 | 19.9% |
| **Cyfanswm** | **4,142** | | **8,343** | | **8.907** | | **10,641** | |

*Cafodd data o 2006-07 ymlaen ei adrodd ar gyfer yr holl ddioddefwyr boed yn sifiliaid neu beidio, mae data o 2007- 08 ymlaen yn nodi dioddefwyr sy'n sifiliaid yn unig.

**Data cydraddoldeb arall**

Cafwyd y data ar ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i fod o dan ddatblygiad, er ei fod yn gwella. Mae 58% o ethnigrwydd dioddefwyr yn parhau i fod heb ei ddatgan neu heb ei ddarparu a 24% o ddata band oed wedi ei gofnodi fel heb ei ddarparu, felly nid yw'r data hwn wedi ei gynnwys yn yr adroddiad presennol. Mae gwaith yn gyfredol yn 2010 – 2011 i wella casglu ac ansawdd data.

## Mesurau Gofal Dioddefwyr:

Mae'r data yn y tablau a sylwadau isod yn ymwneud ag achosion ble y plediwyd yn ddieuog i o leiaf un drosedd yn y gwrandawiad cyntaf neu ble y bu gwrandawiad cysylltiedig â thyst, fel treial, Newton neu wrandawiad rhesymau arbennig neu apêl yn erbyn euogfarn a, ble'r oedd yr Uned Gofal Tystion yn gynwysedig yn cefnogi'r dioddefwr. Ble bo dioddefwyr a thystion, mewn achosion sy'n arbennig o ddifrifol neu sensitif, yn cael eu cefnogi gan Unedau Heddlu Arbenigol, ni fydd gwybodaeth a ddarparwyd yn dangos y gefnogaeth a roddwyd yn cael ei chynnwys yn y data hwn.

[1] Gwrandawiad Newton yw pan fo diffynnydd yn pledio'n euog i'r cyhuddiad ond ei fod yn dadlau ynghylch sail ffeithiol achos yr erlyniad yn ei erbyn. Fel arfer mae hyn yn golygu fod y diffynnydd yn haeru ei fod wedi chwarae rôl lai yn y drosedd a fyddai'n golygu dedfryd lai. Mae'r broses yn debyg i dreial heblaw nad oes rheithgor.

Yn ystod y cyfnod adolygiad, nid oedd nifer o Ardaloedd CPS naill ai'n defnyddio'r System Reoli Tystion neu'n defnyddio'r system yn llawn; felly nid yw'r data a ddarperir yn yr adroddiad hwn yn gyflawn. Mae'r WMS wedi'i fwriadu ar gyfer defnydd fel system rheoli achosion ac nid offeryn monitro; felly mae'n bosib nad yw data mor gyson neu gadarn â data arall sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn. Dyma'r tro cyntaf i'r data hyn gael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol Trosedd Casineb y CPS.

## Tabl 9 – Mesurau Gofal Dioddefwr Trosedd Casineb

| | 2009-10 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| *(i) Atgyfeiriadau i asiantaethau cefnogol neu archwilio cymorth arall* | | |
| **Cyfanswm dioddefwyr *** | **6,700** | |
| Atgyfeiriad wedi'i gynnig | 4,103 | 61.2% |
| Atgyfeiriad wedi'i wneud | 1,715 | 41.8% |
| **Mathau o atgyfeiriadau a wnaethpwyd **** | | |
| **Cyfanswm atgyfeiriadau** | **1,904** | |
| Atgyfeiriad asiantaeth trosedd casineb | 30 | 1.6% |
| Atgyfeiriad Asiantaeth Cymorth i Ddioddefwyr | 230 | 12.1% |
| Atgyfeiriad Asiantaeth Gwasanaeth Tystion | 1,368 | 71.8% |
| Atgyfeiriad arall | 276 | 14.5% |
| **Cyfanswm dioddefwyr *** | **6,700** | |
| Archwilio cymorth arall | 2,529 | 37.7% |
| *(ii) Mesurau mynychu* | | |
| Yn ofynnol mynychu | 5,097 | 76.1% |
| Presenoldeb gwirioneddol | 4,518 | 88.6% |
| Derbyn ymweliad cyn-treial | 1,112 | 21.8% |

* mae'r nifer o fathau o atgyfeiriad yn debygol o fod yn fwy na'r nifer o atgyfeiriadau a wnaethpwyd oherwydd y gellir atgyfeirio'r dioddefwr i fwy nag un asiantaeth

** dioddefwyr sy'n gysylltiedig ag achosion ble y cyflwynwyd ple ddieuog ar y gwrandawiad cyntaf neu wrandawiadau cysylltiedig â thystion (treial, treial wedi ei chlywed yn rhannol, gwrandawiad Newton, gwrandawiad rhesymau arbennig neu apêl yn erbyn euogfarn).

## Atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth

Yn ystod y flwyddyn cynigwyd 4,103 o atgyfeiriadau (61.2% o achosion ) i ddioddefwyr trosedd casineb a oedd yn gysylltiedig ag achosion ble y gwnaethpwyd ple di euog neu gyda gwrandawiad cysylltiedig â thyst, ac o'r rhain gwnaethpwyd 1,715 neu 41.8%. Gellir gwneud atgyfeiriadau i nifer o asiantaethau cymorth arbenigol ac mae data sydd wedi'i gasglu'n dangos bod 71.8% o fathau atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Tystion, 12.1% i Gymorth Dioddefwyr a 1.6% i asiantaeth trosedd casineb. Roedd y 276 neu 14.5% oedd yn weddill yn destun i atgyfeiriad i asiantaeth arall. Gellir atgyfeirio dioddefwr (neu dyst) i fwy nag un asiantaeth.
Mae'n debygol bod atgyfeiriadau i Gymorth Dioddefwyr neu asiantaethau arbenigol hefyd wedi'u gwneud yn gynharach yn y broses cyfiawnder troseddol gan yr heddlu neu asiantaethau eraill. Mae'n debygol bod rhai o'r dioddefwyr a atgyfeiriwyd at Gymorth Dioddefwyr wedi'u hatgyfeirio at wasanaeth arbenigol yn dilyn asesiad angen gan yr asiantaeth hon.

Ymchwiliwyd i anghenion cymorth 37.7% o ddioddefwyr trosedd casineb, yn gysylltiedig ag achosion gyda gwrandawiad cysylltiedig â thyst neu ble mae ple ddieuog wedi ei chyflwyno, yng nghyswllt eu presenoldeb yn y llys, fel gofal plant neu gludiant. Derbyniodd 21.8% o ddioddefwyr yr oedd angen iddynt fynychu llys ymweliadau llys cyn-treial.

## Presenoldeb mewn llys

Roedd gofyn i 76.1% o ddioddefwyr trosedd casineb, yn gysylltiedig ag achosion â gwrandawiad cysylltiedig â thyst, fynychu llys, ac o'r rhain mynychodd 88.6%. Mae'r ffigwr presenoldeb uchel yn awgrymu bod y cymorth gafodd ei ddarparu gan unedau gofal tystion yn helpu dioddefwyr i barhau'n gysylltiedig â'r broses cyfiawnder troseddol.

## Mesurau arbennig

Nid yw data'r CPS ar fesurau arbennig yn ddigon cadarn i'w gyhoeddi yn yr adroddiad hwn. Cynhelir prosiect ymchwil ar gyfer 2010-2011 sy'n anelu at helpu'r CPS i gael mewnwelediad i feysydd ble gwyddys efallai bod angen gwelliannau, gan gynnwys dynodi'r angen am fesurau arbennig; cyfathrebu rhwng asiantaethau a gyda thystion ynghylch mesurau arbennig; a phrydlondeb ceisiadau mesurau arbennig.

## Codi Dedfrydau

Mae'r wybodaeth hon wedi'i chasglu ers Ebrill 2007, ond mae'n dal i gael ei datblygu. Mae'r CPS yn bwriadu gweithio â phartneriaid llywodraeth eraill megis Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi i wella casglu ac ansawdd data.

# Trosedd a Waethygir Ar Sail Hil a Chrefydd

Mae'r CPS wedi adrodd ar erlyniad trosedd casineb hiliol a chrefyddol (RARA) ers Ebrill 2005. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod bod trosedd casineb RARA yn parhau wedi ymdreiddio mewn cymdeithas, yn targedu rhychwant eang o grwpiau ethnig ac yn ymosod ar wreiddiau cydlyniad cymdeithasol. Rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan wrth ddod â'r troseddau hyn i gyfiawnder a rhoi cymorth i ddioddefwyr a thystion. Mae'r canfyddiadau yn y rhan hon yn dangos bod perfformiad y CPS wrth erlyn y math yma o drosedd casineb wedi gwella'n barhaus dros y 5 mlynedd diwethaf. Trosedd casineb Hiliol a Chrefyddol oedd y nifer uchaf o droseddau ar 12,927 ac yn dangos y gyfradd canlyniad llwyddiannus uchaf ar 82.4%. Mae'r gyfradd pledion euog wedi cynyddu o 4.5% a'r gyfradd y mae'r CPS yn gollwng achosion wedi gostwng o tua 2%. Mae hyn yn hynod o galonogol oherwydd ei fod yn awgrymu bod achosion yn cael eu paratoi'n well a bod mwy o ddioddefwyr a thystion wedi gallu osgoi'r hyn a all fod yn brofiad anodd yn y llys.
Cynyddodd nifer yr achosion gafodd eu hatgyfeirio i'r CPS gan yr heddlu a'u cyhuddo gan y CPS yn dilyn gostyngiad yn 2008-09, sydd hefyd yn galonogol. Mae'r gyfradd erlyn llwyddiannus wedi parhau'r un fath, er gwaethaf cynnydd mewn nifer. Mae ceisiadau gan y CPS i'r heddlu am dystiolaeth bellach wedi parhau'n isel sy'n awgrymu dull da gan y tîm erlyn. Y rheswm mwyaf sylweddol ar gyfer methiant achosion yn 2009-2010 oedd rhyddfarnu yn dilyn treial.

**Manceinion Fwyaf: gwrth-semitiaeth**

Ym Mehefin 2009 gyrrodd tri diffynnydd gerbyd o amgylch ardal Broughton gan chwistrellu hylif ar bwrpas ar aelodau o'r gymuned Iddewig, yn cynnwys grŵp o blant, ac yn gweiddi pethau hiliol.

Llediodd dau o'r diffynyddion yn euog i wyth cyhuddiad o ymosodiad cyffredin ar sail hil a'u dedfrydu i bedwar mis o garchar. Llediodd trydydd diffynnydd yn euog i un cyhuddiad o ymosodiad cyffredin ar sail hil a chafodd orchymyn cymunedol o ddeuddeg mis.

Cafodd y tri diffynnydd orchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol 5 mlynedd yn eu rhwystro rhag mynd i'r gymdogaeth, sy'n gartref i'r gymuned Iddewig fwyaf yn y DU y tu allan i Lundain.

**Achos gwrth-Fwslimaidd: Swydd Gaerlŷr**

Yn Rhagfyr 2009, tynnodd y diffynnydd orchudd menyw Fwslimaidd. I ddechrau cafodd y digwyddiad ei gyhuddo fel trosedd trefn gyhoeddus 'lefel-isel'. Fodd bynnag, adolygodd uwch erlynydd y goron y ffeil a chynghori cyhuddiad o ymosodiad cyffredin ar sail crefydd.

Mynychodd y ddioddefwraig gyfarfod grŵp cymunedol lleol, gyda'r heddlu a chynrychiolwyr CPS yn bresennol, i siarad am ei phrofiad o'r broses cyfiawnder troseddol. Er bod gwersi i'w dysgu wrth ddelio â menywod Mwslimaidd pan fydd troseddau'n cael eu hadrodd yn gyntaf, adroddodd ei bod yn ddiolchgar iawn i'r CPS am gymryd y digwyddiad o ddifrif a gwneud y cyhuddiad mwy difrifol a'i bod wedi cael cefnogaeth dda drwy gydol y broses llys. Newidiodd y diffynnydd ei ble i euog ar ddiwrnod y treial a chafodd ddirwy o £1,000, a dedfryd carchar ataliedig 16-wythnos a 150 o oriau o wasanaeth cymunedol.


# Prif Ganfyddiadau Gwaethygiad Hiliol a Chrefyddol

Mae data'r CPS yn cael ei dynnu o system TG gweinyddol y CPS, a'i ddefnyddio ar gyfer rheolaeth perfformiad mewnol. Felly, ni ddylid ystyried y data hwn fel ystadegau swyddogol y Llywodraeth; yn yr un modd ag unrhyw system recordio graddfa fawr, gall anghywirdebau ddigwydd o ganlyniad i gamgymeriadau wrth gofnodi a phrosesu'r data. Ffigyrau dros dro yw'r rhain ac yn destun i newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei gofnodi gan y CPS.

## Cyhuddo

Cynyddodd y raddfa o benderfyniadau'r CPS i gyhuddo diffynyddion o 70.1% o achosion ar sail hil neu grefydd a gyfeiriwyd at y Gwasanaeth yn 2007-08 i 71.3% yn 2009-10.

### Tabl 1 – Penderfyniadau Cyn-Cyhuddo *




| Pob Diffynnydd | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Cyhuddwyd | 9,115 | 70.1% | 8,673 | 73.2% | 9,214 | 71.3% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 134 | 1.0% | 84 | 0.7% | 85 | 0.7% |
| Dim erlyniad | 2,426 | 18.7% | 1,836 | 15.5% | 2,132 | 16.5% |
| Pob penderfyniad arall | 1,321 | 10.2% | 1,252 | 10.6% | 1,496 | 11.6% |
| **Cyfanswm** | **12,996** | | **11,845** | | **12,927** | |


Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2006

** Nid yw'r ffigyrau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad 2007-08 yn cynnwys yr achosion hynny ble na ddaliwyd yn llawn ddeilliant y penderfyniad yng nghofnodion y CPS. Er mwyn cyflawnrwydd, nid yw'r canlyniadau hyn wedi'u hychwanegu at yr adroddiad presennol. Mae'r ffigyrau uchod felly'n wahanol i adroddiad 2007-08.*

## Euogfarnau

Mae Tabl a siart 2 isod yn dangos dadansoddiad o erlyniadau dros y tair blynedd ddiwethaf, yn dangos bod euogfarnau wedi cynyddu o 80% yn 2007-08 i 82% yn 2009-10.

### Tabl 2 - Erlyniadau wedi'u Cwblhau yn ôl Canlyniad





| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 10,398 | 79.9% | 9,576 | 82.4% | 9,993 | 82.4% |
| Aflwyddiannus | 2,610 | 20.1% | 2,048 | 17.6% | 2,138 | 17.6% |
| **Cyfanswm** | **13,008** | | **11,624** | | **12,131** | |


Mae'r tabl a siartiau yn dangos dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyniad am droseddau ar sail hil neu grefydd yn 2007-08, 2008- 09 a 2009-10. Cododd pledion euog o 67% i 70%, yn cyfrannu at well cyfradd euogfarn o 82.4% yn gyffredinol yn 2009-10. Gostyngodd erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, yn cynnwys dirwyn i ben ac achosion ble na chynigiwyd unrhyw dystiolaeth, o bron i 13% i ychydig dros 10%.

### Tabl 3 – Canlyniadau Erlyniad

#### Euogfarnau



**Canlyniadau Aflwyddiannus**




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Erlyniadau a Ollyngwyd gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl* | *1,631* | *12.5%* | *1,248* | *10.7%* | *1,260* | *10.4%* |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *942* | *7.2%* | *673* | *5.8%* | *698* | *5.8%* |
| Gwrthodwyd yn dilyn treial llawn | 478 | 3.7% | 415 | 3.6% | 472 | 3.9% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 40 | 0.3% | 18 | 0.2% | 42 | 0.3% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 160 | 1.2% | 161 | 1.4% | 169 | 1.4% |
| Yr holl ganlyniadau aflwyddiannus eraill | 301 | 2.3% | 206 | 1.8% | 195 | 1.6% |
| **Canlyniadau Aflwyddiannus** | **2,610** | **20.1%** | **2,048** | **17.6%** | **2,138** | **17.6%** |
| Ple euog | 8,648 | 66.5% | 8,112 | 69.8% | 8,501 | 70.1% |
| Euogfarnu yn dilyn treial | 1,708 | 13.1% | 1,423 | 12.2% | 1,451 | 12.0% |
| Profwyd yn absenoldeb | 42 | 0.3% | 41 | 0.4% | 41 | 0.3% |
| **Euogfarnau** | **10,398** | **79.9%** | **9,576** | **82.4%** | **9,993** | **82.4%** |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **13,008** | | **11,624** | | **12,131** | |


## Erlyniadau Aflwyddiannus

Gall achosion fethu oherwydd rhesymau tystiolaethol, rhesymau diddordeb cyhoeddus, achos yn methu bwrw ymlaen, achos yn destun i gwblhau'r gwaith gweinyddol, ac am resymau eraill. Dangosodd y cyfrannau oedd yn disgyn i bob categori rai gwahaniaethau o 2007-08 i 2009-10. Yn 2009-10, 5.4% yn aflwyddiannus am resymau gweinyddol sy'n is nag yn 2007-08 (7%); 29.4% am resymau tystiolaethol, gostyngiad o 4 y cant o 33.8% a gofnodwyd yn y cyfnod cynharach; 11.3% am ddiddordeb cyhoeddus (tebyg i'r 10.7% a gofnodwyd yn 2007-08); 20.7% ddim yn gallu bwrw ymlaen (tebyg i'r 21.1% yn 2007-08), a 33.2% yn disgyn i'r categori rhesymau eraill, bron i 6 pwynt canrannol yn uwch nag yn 2007-08 (27.4%).

Mae Tabl 4 yn rhoi dadansoddiad manylach, yn dangos y gyfradd a fethodd oherwydd prif resymau yn cynnwys materion dioddefwyr (yn cynnwys dioddefwyr yn tynnu'n ôl, ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos, ac achosion ble na fu i'r dioddefwr fynychu gwrandawiad llys), ble roedd elfen gyfreithiol hanfodol ar goll, rheiny ble roedd gwrthdrawiad mewn tystiolaeth, a'r rheiny ble roedd rhyddfarnu yn dilyn treial. O fewn y prif resymau hyn, bu i achosion a fethodd oherwydd materion dioddefwyr aros tua'r un fath ar 23% i 22% yn ystod y cyfnod o dan adolygiad.

Gostyngodd yr achosion a fethodd oherwydd bod elfen gyfreithiol hanfodol ar goll neu ble'r oedd diffynyddion naill ai'n destun i dditiad arall, neu ddedfrydau yn achos achosion eraill, yn ystod y cyfnod o 11.3% i 9.9% ac o 4.1% i 2.9% yn ôl eu trefn. Fodd bynnag, cynyddodd rhyddfarnau yn fawr o dros 6 pwynt canrannol, o ychydig dros 21% i dros 27%. Cynyddodd y gyfradd a fethodd oherwydd prif resymau o 65% i 67% o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus.

## Tabl 4 – Prif resymau dros Erlyniadau Aflwyddiannus





| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu Cyhuddiad yn ôl | 170 | 6.5% | 95 | 4.6% | 121 | 5.7% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 240 | 9.2% | 198 | 9.7% | 224 | 10.5% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi achos | 176 | 6.7% | 157 | 7.7% | 114 | 5.3% |
| **Cyfanswm Materion gyda Dioddefwyr** | **586** | **22.5%** | **450** | **22.0%** | **459** | **21.5%** |
| Gwrthdrawiad Tystiolaeth | 155 | 5.9% | 145 | 7.1% | 114 | 5.3% |
| Elfen Gyfreithiol Hanfodol ar Goll | 295 | 11.3% | 198 | 9.7% | 211 | 9.9% |
| Ditiad/Dedfryd Arall | 106 | 4.1% | 78 | 3.8% | 61 | 2.9% |
| Rhyddfarnu yn dilyn treial | 557 | 21.3% | 498 | 24.3% | 590 | 27.6% |
| ***Cyfanswm Rhesymau Allweddol*** | ***1,699*** | ***65.1%*** | ***1,369*** | ***66.8%*** | ***1,435*** | ***67.1%*** |
| Pob Rheswm Arall | 729 | 27.9% | 537 | 26.2% | 587 | 27.5% |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 182 | 7.0% | 142 | 6.9% | 116 | 5.4% |
| **Cyfanswm** | **2,610** | | **2,048** | | **2,138** | |


Mae Tabl a siartiau 5 yn dangos nifer a chyfran materion dioddefwyr mewn cyswllt â'r holl ganlyniadau. Gostyngodd nifer y rhai fu'n aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr, o 586 i 2007-08 i 459 yn 2009-10, tra'r arhosodd y cyfrannau'n debyg ar 4% - 5%. Gostyngodd cyfanswm y canlyniadau aflwyddiannus, fodd bynnag, o 20.1% yn 2007-08 i 17.6% yn 2009-10.

## Tabl 5 – Cymhariaeth o'r Prif resymau dros Ganlyniadau Aflwyddiannus

### Prif resymau mewn cyswllt â'r holl ganlyniadau




### % Materion dioddefwyr




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Cyfanswm Aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr* | *586* | *4.5%* | *450* | *3.9%* | *459* | *3.8%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 2,610 | 20.1% | 2,048 | 17.6% | 2,138 | 17.6% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 10,398 | 79.9% | 9,576 | 82.4% | 9,993 | 82.4% |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **13,008** | | **11,624** | | **12,131** | |

## Prif gategori trosedd

Ar ddiwedd achos, mae pob diffynnydd yn cael ei ddyrannu i Brif Gategori Trosedd i ddangos y math a difrifoldeb y cyhuddiadau sydd wedi'u dwyn.

Troseddau corfforol a throseddau trefn gyhoeddus oedd y categorïau mwyaf niferus, yn cynrychioli 83% (42% a 41% yn ôl eu trefn) o erlyniadau trosedd ar sail hil a chrefydd yn 2009-10. Roedd difrod troseddol yn cyfrif am 6% pellach, oedd heb newid o'r flwyddyn gynt. Cofnodwyd patrwm tebyg ar gyfer dynion, gyda 41% yn cael eu categoreiddio fel troseddau corfforol a threfn gyhoeddus, a 6% pellach fel difrod troseddol. Roedd patrwm ychydig yn wahanol ar gyfer merched, gyda throseddau corfforol a threfn gyhoeddus ychydig yn uwch ar 44% a 42% yn ôl eu trefn a difrod troseddol yn is ar 4%. Roedd troseddau dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn hefyd yn fwy cyffredin ymysg merched ar 4%. Dynion oedd 82% o ddiffynyddion ble y dynodwyd mai'r brif drosedd oedd trosedd corfforol neu drefn gyhoeddus, ychydig yn is nag yn 2007-08 a 2008-09.


## Data Cydraddoldeb

### *(i) Diffynyddion*

#### Rhyw

Mae tabl 6 yn dadansoddi rhyw'r diffynyddion. Bu gostyngiad bach yn y gyfran o ddiffynyddion a oedd yn ddynion i 83% o 85% yn ystod y cyfnod adolygiad.

**Tabl 6 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw'r Diffynnydd**




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 1,970 | 15.1% | 1,794 | 15.4% | 2,065 | 17.0% |
| Dynion | 11,036 | 84.8% | 9,827 | 84.5% | 10,062 | 82.9% |
| Ni wyddys | 2 | 0.0% | 3 | 0.0% | 4 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **13,008** | | **11,624** | | **12,131** | |

#### Ethnigrwydd

Mae data ethnigrwydd data ar ddiffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS yn unol â'r diffiniadau System Cyfiawnder Troseddol cytûn ar gyfer y categorïau ethnig 16+1. Yn 2009-10, dynodwyd bod 75% o ddiffynyddion trosedd ar sail hil a chrefydd yn perthyn i'r Categori Gwyn Prydeinig, a chafodd 79% eu categoreiddio yn Wyn. Dynodwyd 5% o ddiffynyddion fel Asiaidd, a dynodwyd 5% yn Ddu yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Ni wnaeth 4% o ddiffynyddion ddatgan ethnigrwydd ar arestiad ac yn 5% o achosion ni ddarparwyd ethnigrwydd y diffynnydd i'r CPS gan yr heddlu.

### Oed


Mae data ar oedran diffynyddion yn cael ei goladu gan y CPS gyda chyfeiriad at gyfres o fandiau oed. Ni ellir dadelfennu oedrannau unigol o'r bandiau hyn. Diffynyddion rhwng 14-17 oed (15%), 18-24 oed (30%) a'r rhai rhwng 25-59 oed (50%) oedd y categorïau mwyaf niferus, yn cyfrif am 95% o ddiffynyddion yr un gyfran gyffredinol a gofnodwyd yn y bandiau oed hyn yn 2007-08. Roedd 2% pellach rhwng 10-13 oed oedd yn dangos ychydig iawn o newid o 2007-08.

## *(ii) Dioddefwyr*

### Rhyw

Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw'r dioddefwyr. Cafwyd y data ar ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion, a dim ond ers Ebrill 2006 mae ar gael. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon wedi gwella â 80% o ryw dioddefwr wedi'i ddynodi yn y flwyddyn ddiwethaf o'i gymharu â 44% yn 2007 - 08, fodd bynnag, mae gwaith i wella cofnodi yn parhau. O'r dioddefwyr hynny y cafodd eu rhyw ei gofnodi, roedd y gyfran uchaf yn ddynion, ar 68% yn 2007-08 a 2008-09 yn cynyddu ychydig i 70% yn 2009-10.

### Tabl 7 – Rhyw Dioddefwyr *




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 1,055 | 13.9% | 1,623 | 20.5% | 2,197 | 24.2% |
| Dynion | 2,278 | 30.0% | 3,430 | 43.3% | 5,086 | 56.0% |
| Ni wyddys | 4,250 | 56.0% | 2,864 | 36.2% | 1,798 | 19.8% |
| **Cyfanswm** | **7,583** | | **7,917** | | **9,081** | |

*Cafodd data o 2006-07 ei adrodd ar gyfer yr holl ddioddefwyr boed yn sifiliaid neu beidio, ond mae data o 2007-08 ymlaen ond yn adrodd ynghylch dioddefwyr sy'n sifiliaid.

### Data cydraddoldeb arall

Mae data ar ethnigrwydd ar gael o Ebrill 2006. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn dal i gael ei datblygu – er enghraifft mae 59% ethnigrwydd y dioddefwr yn parhau heb ei ddatgan neu heb ei ddarparu a nodir bod 24% o ddata band oed wedi ei gofnodi fel heb ei ddarparu, felly nid yw'r data hwn wedi ei gynnwys yn yr adroddiad presennol. Mae gwaith yn parhau yn 2010-2011 i wella casglu data a'i ansawdd.

## Mesurau Gofal Dioddefwyr

Mae'r data yn y tablau a sylwadau isod yn ymwneud ag achosion ble y plediwyd yn ddieuog i o leiaf un drosedd yn y gwrandawiad cyntaf neu ble y bu gwrandawiad cysylltiedig â thyst, fel treial, Newton[2] neu wrandawiad rhesymau arbennig neu apêl yn erbyn euogfarn a, ble'r oedd yr Uned Gofal Tystion yn gynwysedig yn cefnogi'r dioddefwr. Ble bo dioddefwyr a thystion, mewn achosion sy'n arbennig o ddifrifol neu sensitif, yn cael eu cefnogi gan Unedau Heddlu Arbenigol, ni fydd gwybodaeth a ddarparwyd yn dangos y gefnogaeth a roddwyd yn cael ei chynnwys yn y data hwn.

Yn ystod y cyfnod adolygiad, nid oedd nifer o Ardaloedd CPS naill ai'n defnyddio'r System Reoli Tystion neu'n defnyddio'r system yn llawn; felly nid yw'r data a ddarperir yn yr adroddiad hwn yn gyflawn. Mae'r WMS wedi'i fwriadu ar gyfer defnydd fel system rheoli achosion ac nid offeryn monitro; felly mae'n bosib nad yw data mor gyson neu gadarn â data arall sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn. Dyma'r tro cyntaf i'r data hyn gael eu cynnwys ym Mhennod Prif Ganfyddiadau Casineb Hil a Chrefydd o Adroddiad Blynyddol Trosedd Casineb y CPS.

### Tabl 9 – Mesurau Gofal Tystion Dioddefwyr Trosedd Casineb Hil & Chrefydd

| | 2009-10 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| ***(i) Atgyfeiriadau i asiantaethau cefnogol neu archwilio cymorth arall*** | | |
| **Cyfanswm dioddefwyr *** | **5,765** | |
| Atgyfeiriad wedi'i gynnig | 3,550 | 61.6% |
| Atgyfeiriad wedi'i wneud | 1,426 | 40.2% |
| **Mathau o atgyfeiriadau a wnaethpwyd ****| | |
| **Cyfanswm atgyfeiriadau** | **1,574** | |
| Atgyfeiriad asiantaeth trosedd casineb | 24 | 1.5% |
| Atgyfeiriad Asiantaeth Cymorth i Ddioddefwyr | 179 | 11.4% |
| Atgyfeiriad Asiantaeth Gwasanaeth Tystion | 1,151 | 73.1% |
| Atgyfeiriad arall | 220 | 14.0% |
| **Cyfanswm dioddefwyr *** | **5,765** | |
| Archwilio cymorth arall | 2,154 | 37.4% |
| ***(ii) Mesurau mynychu*** | | |
| Yn ofynnol mynychu | 5,765 | 76.8% |
| Presenoldeb gwirioneddol | 3,922 | 88.6% |
| Derbyn ymweliad cyn-treial | 905 | 20.4% |

* mae'r nifer o fathau o atgyfeiriad yn debygol o fod yn fwy na'r nifer o atgyfeiriadau a wnaethpwyd oherwydd y gellir atgyfeirio'r dioddefwr i fwy nag un asiantaeth
** dioddefwyr sy'n gysylltiedig ag achosion ble y cyflwynwyd ple ddieuog ar y gwrandawiad cyntaf neu wrandawiadau cysylltiedig â thystion (treial, treial wedi ei chlywed yn rhannol, gwrandawiad Newton, gwrandawiad rhesymau arbennig neu apêl yn erbyn euogfarn).

[2] Gwrandawiad Newton yw pan fo diffynnydd yn pledio'n euog i'r cyhuddiad ond ei fod yn dadlau ynghylch sail ffeithiol achos yr erlyniad yn ei erbyn. Fel arfer mae hyn yn golygu fod y diffynnydd yn haeru ei fod wedi chwarae rôl lai yn y drosedd a fyddai'n golygu dedfryd lai. Mae'r broses yn debyg i dreial heblaw nad oes rheithgor.

## Atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth

Yn ystod y flwyddyn cynigwyd 3,550 o atgyfeiriadau (61.6% o achosion ) i ddioddefwyr trosedd casineb hiliol a chrefyddol a oedd yn gysylltiedig ag achosion ble y gwnaethpwyd ple di euog neu gyda gwrandawiad cysylltiedig â thyst, ac o'r rhain gwnaethpwyd 1,426 neu 40.2%. Gellir gwneud atgyfeiriadau i nifer o asiantaethau cymorth arbenigol ac mae data sydd wedi'i gasglu'n dangos bod 73.1% o fathau o atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Tystion, 11.4% i Gymorth Dioddefwyr ac 1.5% at asiantaeth trosedd casineb. Bu'r 220 neu 14% oedd yn weddill yn destun i atgyfeiriad i asiantaeth arall. Gellir cyfeirio dioddefwr (neu dyst) at fwy nag un asiantaeth.

Mae'n debygol bod atgyfeiriadau i Gymorth Dioddefwyr neu asiantaethau arbenigol hefyd wedi'u gwneud yn gynharach yn y broses cyfiawnder troseddol gan yr heddlu neu asiantaethau eraill. Mae'n debygol bod rhai o'r dioddefwyr a atgyfeiriwyd at Gymorth Dioddefwyr wedi eu cyfeirio at wasanaeth arbenigol ar ôl asesiad angen gan yr asiantaeth hon.

Mae 37.4% o ddioddefwyr trosedd casineb hil a chrefydd, sy'n gysylltiedig ag achosion â gwrandawiad cysylltiedig â thyst neu ble mae ple di euog wedi'i wneud, ag anghenion cymorth eraill a archwiliwyd mewn cyswllt â'u presenoldeb mewn llys, megis gofal plant neu gludiant. Bu i 20.4% o ddioddefwyr yr oedd angen iddynt i fynychu llys dderbyn ymweliadau llys cyn-treial.

## Presenoldeb mewn llys

Roedd gofyn i 76.8% o ddioddefwyr trosedd casineb hil a chrefydd, yn gysylltiedig ag achosion â gwrandawiad cysylltiedig â thyst, fynychu'r llys, ac o'r rhain mynychodd 88.6%. Mae'r ffigwr presenoldeb uchel yn awgrymu bod y cymorth a ddarparwyd gan yr unedau gofal tystion yn helpu dioddefwyr i barhau'n gysylltiedig â'r broses cyfiawnder troseddol.

## Mesurau arbennig

Nid yw data'r CPS ar fesurau arbennig yn ddigon cadarn i'w gyhoeddi yn yr adroddiad hwn. Cynhelir prosiect ymchwil ar gyfer 2010-2011 sy'n anelu at helpu'r CPS i gael mewnwelediad i feysydd ble gwyddys efallai bod angen gwelliannau, gan gynnwys dynodi'r angen am fesurau arbennig; cyfathrebu rhwng asiantaethau a gyda thystion ynghylch mesurau arbennig; a phrydlondeb ceisiadau mesurau arbennig.

## Codi Dedfrydau

Mae'r wybodaeth hon wedi'i chasglu ers Ebrill 2007, ond mae'n dal i gael ei datblygu. Mae'r CPS yn bwriadu gweithio â phartneriaid llywodraeth eraill megis Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi i wella casglu ac ansawdd data.

# Trosedd homoffobig a thrawsffobig

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cydnabod natur ddifrifol trosedd homoffobig a thrawsffobig a'r materion penodol sy'n wynebu pobl lesbiaid, hoyw, trawsgender a deurywiol wrth ddod ymlaen i chwarae eu rhan fel dioddefwyr a thystion. Er enghraifft, bydd llawer o bobl eisiau osgoi 'cyhoeddi' eu rhywioldeb drwy'r broses cyfiawnder troseddol ac mae ein datganiad polisi cyhoeddus yn datgan yn glir y byddwn yn gwneud popeth a allwn i amddiffyn cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhyw unigolion.

Ers Ebrill 2005 mae'r CPS wedi adrodd ar erlyniad troseddau homoffobig a thrawsffobig fel rhan o'r Broses Adolygu Perfformiad Ardal y CPS. Tra'r ydym yn cydnabod natur wahanol y troseddau hyn, yn yr adroddiad hwn mae troseddau homoffobig a thrawsffobig yn cael eu grwpio o dan y categori 'homoffobig'.

Cafodd y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 ('Deddf 2008') Gydsyniad Brenhinol ar 8 Mai 2008. Roedd Adran 74 ac atodlen 16 o Ddeddf 2008 Act yn diwygio rhan 3A o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 ('Deddf 1986') a thrwy hynny'n creu'r drosedd o achosi casineb yn fwriadol ar sail cyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r drosedd yn cael ei chyflawni os yw unigolyn yn defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, neu'n arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig sy'n fygythiol, os yw'n bwriadu drwy hynny i achosi casineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Gellir cyflawni'r drosedd mewn man cyhoeddus neu breifat, ond nid o fewn annedd, oni bai bod y geiriau neu ymddygiad tramgwyddus yn cael eu clywed y tu allan i'r annedd, a bod bwriad iddynt gael eu clywed.

Mae'r mathau hyn  o honiadau'n sensitif yn ôl eu natur eu hunain. Am y rheswm hwnnw, ac i sicrhau dull cyson, bydd unrhyw gyhuddiad o dan y ddeddfwriaeth hon yn cael ei chyfeirio at yr Adain Wrth Derfysgaeth a bydd angen cydsyniad y Twrnai Cyffredinol i weithredu erlyniad. Daeth y darpariaethau i rym ar 23 Mawrth 2010, a lledaenwyd cyfarwyddyd cyfreithiol i'r holl erlynyddion CPS.

Mae ein perfformiad wrth erlyn trosedd homoffobig a thrawsffobig yn galonogol. Cynyddodd nifer yr achosion o tua 100 achos, gyda'r ganran o ganlyniadau llwyddiannus yn aros tua'r un faint.

Mae gwaith wedi'i gynllunio yn 2010-2011 i wella ein dealltwriaeth o gyffredinrwydd achosion sy'n seiliedig ar elyniaeth tuag at statws trawsgender y mae'r CPS yn ymdrin â hwy.

**Trosedd casineb trawsgender a homoffobig: CPS Northumbria**

Roedd y ddioddefwraig yn y broses o ailbennu rhywedd ac yn gweithio fel swyddog diogelwch mewn siop. Roedd y diffynnydd wedi'i gwahardd o'r siop yn flaenorol am ddifrïo, ac wedi derbyn rhybudd am hynny. Ailadroddodd y difrïo wedi hynny drwy alw'r ddioddefwraig yn '*tranny*' ac, ar ôl hynny, yn '*lesbian and dyke*'. Plediodd yn ddieuog a chafodd yr achos ei erlyn gan y cydlynydd trosedd casineb Ardal. Cyfarfu'r cydlynydd trosedd casineb y ddioddefwraig yn y llys a chael defnydd ystafell breifat i ateb unrhyw gwestiynau oedd ganddi, ac i sefydlu pa wybodaeth, os o gwbl, yr oedd hi eisiau i'r llys ei gael am ei thriniaeth ailbennu rhywedd. Rhoddodd y cydlynydd trosedd casineb wybodaeth iddi'n bersonol drwy gydol y bore ynghylch yr hyn oedd yn digwydd. Sicrhaodd y swyddog Gofal Tyst yn y Llys ei bod yn derbyn cefnogaeth briodol.

Anogodd y cymorth penodol hwn y ddioddefwraig i barhau'n gysylltiedig â'r broses cyfiawnder troseddol. O ganlyniad i'r ddioddefwraig fynychu'r llys ar ddiwrnod y treial, plediodd y diffynnydd yn euog. Codwyd y ddedfryd o dan rh.146 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 gan y Llys am y sylwadau homoffobig. Oherwydd ei diffyg record gyda'r heddlu, cafodd y diffynnydd ryddhad amodol 6 mis, fodd bynnag o ganlyniad i'r nodwedd gwaethygu, cynyddwyd hyn i 12 mis. Esboniwyd y ddedfryd yn llawn i'r ddioddefwraig yn y Llys.

# Prif Ganfyddiadau Trosedd homoffobig a thrawsffobig


Mae data'r CPS yn cael ei dynnu o system TG gweinyddol y CPS, a'i ddefnyddio ar gyfer rheolaeth perfformiad mewnol. Felly, ni ddylid ystyried y data hwn fel ystadegau swyddogol y Llywodraeth; yn yr un modd ag unrhyw system recordio graddfa fawr, gall anghywirdebau ddigwydd o ganlyniad i gamgymeriadau wrth gofnodi a phrosesu'r data. Ffigyrau dros dro yw'r rhain ac yn destun i newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei gofnodi gan y CPS.

Mae erlyniadau a gwblhawyd yn dod i mewn i ddau gategori: euogfarnau, sy'n cynnwys pledion euog, euogfarnau ar ôl treial ac achosion wedi'u profi yn absenoldeb y diffynnydd; a chanlyniadau aflwyddiannus, sy'n cynnwys yr holl ganlyniadau eraill yn cynnwys dirwyn i ben, cwblhau'r gwaith gweinyddol, achosion traddodi a ryddhawyd, gwrthod achosion ar ôl treial, a gwrthod achosion am nad oes achos i'w ateb, rhyddfarnau gan y barnwr a rhyddfarnau rheithgor.

## Cyhuddo

Penderfynodd y CPS y dylai'r diffynnydd gael ei gyhuddo mewn 62.2% o achosion trosedd homoffobig a atgyfeiriwyd i'r Gwasanaeth yn 2007-08, yn codi i 66.1% yn 2009-10.

**Tabl 1 – Penderfyniadau Cyn-Cyhuddo ***




| Pob Diffynnydd | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Cyhuddwyd | 758 | 62.2% | 710 | 65.1% | 907 | 66.1% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 14 | 1.1% | 6 | 0.6% | 9 | 0.7% |
| Dim erlyniad | 272 | 22.3% | 222 | 20.4% | 292 | 21.3% |
| Pob penderfyniad arall | 175 | 14.4% | 152 | 13.9% | 165 | 12.0% |
| **Cyfanswm** | **1,219** | | **1,090** | | **1,373** | |


Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2006

* Nid yw'r ffigyrau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad 2007-08 yn cynnwys yr achosion hynny ble na ddaliwyd yn llawn ddeilliant y penderfyniad yng nghofnodion y CPS. Er mwyn cyflawnrwydd, nid yw'r canlyniadau hyn wedi'u hychwanegu at yr adroddiad presennol. Mae'r ffigyrau uchod felly'n wahanol i adroddiad 2007-08.

## Euogfarnau

Yn y tair blynedd a ddaeth i ben ym Mawrth 2010, cafodd 3,160 o ddiffynyddion eu herlyn am droseddau oedd yn cynnwys homoffobia. Mae Tabl a siart 2 isod yn darparu rhaniad o erlyniadau dros y cyfnod tair blynedd, yn dangos bod euogfarnau wedi cynyddu o 78% yn 2007-08 i 81% yn 2009-10.

### Tabl 2 - Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad





| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 778 | 78.2% | 815 | 80.5% | 929 | 80.6% |
| Aflwyddiannus | 217 | 21.8% | 198 | 19.5% | 223 | 19.4% |
| **Cyfanswm** | **995** | | **1,013** | | **1,152** | |


Mae'r tabl a siartiau isod yn dangos dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyniad ar gyfer troseddau homoffobig yn 2007-08, 2008-09 a 2009-10. Cynyddodd pledion euog ychydig o 67% i 68% yn y cyfnod tair blynedd fodd bynnag, arhosodd y gyfradd euogfarn yn gyson ar 81% yn 2008- 09 a 2009-10. Gostyngodd erlyniadau a gafodd eu gollwng gan y CPS, gan gynnwys dirwyn i ben ac achosion ble na chynigwyd unrhyw dystiolaeth, o 14% i 12%.

### Tabl 3 – Canlyniadau Erlyniad

#### Euogfarnau



**Canlyniadau Aflwyddiannus**




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Erlyniadau a Ollyngwyd gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl* | *137* | *13.8%* | *115* | *11.4%* | *139* | *12.1%* |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *67* | *6.7%* | *62* | *6.1%* | *63* | *5.5%* |
| Gwrthodwyd yn dilyn treial llawn | 53 | 5.3% | 48 | 4.7% | 51 | 4.4% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 2 | 0.2% | 3 | 0.3% | 0 | 0.0% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 6 | 0.6% | 9 | 0.9% | 19 | 1.6% |
| Yr holl ganlyniadau aflwyddiannus eraill | 19 | 1.9% | 23 | 2.3% | 14 | 1.2% |
| **Canlyniadau Aflwyddiannus** | **217** | **21.8%** | **198** | **19.5%** | **223** | **19.4%** |
| Ple euog | 662 | 66.5% | 683 | 67.4% | 780 | 67.7% |
| Euogfarnu yn dilyn treial | 114 | 11.5% | 130 | 12.8% | 142 | 12.3% |
| Profwyd yn absenoldeb | 2 | 0.2% | 2 | 0.2% | 7 | 0.6% |
| **Euogfarnau** | **778** | **78.2%** | **815** | **80.5%** | **929** | **80.6%** |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **995** | | **1,013** | | **1,152** | |


## Erlyniadau aflwyddiannus

Gall achosion fethu oherwydd rhesymau tystiolaethol, rhesymau diddordeb cyhoeddus, achos yn methu bwrw ymlaen, achos yn destun i gwblhau'r gwaith gweinyddol, ac am resymau eraill. Dangosodd y cyfrannau oedd yn disgyn i bob categori rai gwahaniaethau o 2007-08 i 2009-10. Yn 2009-10, bu 2.7% yn aflwyddiannus am resymau gweinyddol a 35.4% am resymau tystiolaethol y ddau'n is na'r ffigyrau a gofnodwyd ar gyfer y blynyddoedd blaenorol. Yn yr un cyfnod bu i'r rhai oedd yn aflwyddiannus am resymau diddordeb cyhoeddus, ar 14.3%, a ddim yn gallu bwrw ymlaen, ar 14.8%, ac achosion a fethodd am resymau eraill, ar 32.7%, i gyd gynyddu o gymharu â blynyddoedd cynt.

Mae Tabl 4 yn rhoi dadansoddiad manylach, yn dangos y gyfradd a fethodd oherwydd prif resymau yn cynnwys materion dioddefwyr (yn cynnwys dioddefwyr yn tynnu'n ôl, ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos, ac achosion ble na fu i'r dioddefwr fynychu gwrandawiad llys), ble roedd elfen gyfreithiol hanfodol ar goll, rheiny ble roedd gwrthdrawiad mewn tystiolaeth, a'r rheiny ble roedd rhyddfarnu yn dilyn treial. O fewn y prif resymau hyn, parhaodd rhyddfarnau ar ôl treial fel y categori sengl mwyaf, yn cynyddu yn ystod y cyfnod o dan adolygiad o 22% yn 2007-08 i 28%. Bu cynnydd yn y gyfradd

a fethodd oherwydd bod y dioddefwr wedi tynnu'n ôl, o 2% i 5%, tra bu i'r rhai a fethodd oherwydd nad oedd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos gynyddu o 6% bron i 10%. Cynyddodd y ganran a fethodd oherwydd materion dioddefwyr o 5 pwynt canrannol yn ystod y cyfnod, o 17.1% i 22.0% o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus. Gostyngodd nifer yr achosion a fethodd oherwydd bod elfen gyfreithiol hanfodol ar goll o 15% i 6%, tra y bu i'r rhai oedd yn aflwyddiannus oherwydd gwrthdaro tystiolaeth gynyddu o 7% i 8%. Bu i'r gyfran o gyfanswm o brif resymau am fethiannau achos gynyddu o 65% i 70% dros y cyfnod tair blynedd.

## Tabl 4 – **Prif resymau dros erlyniadau aflwyddiannus**





| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu Cyhuddiad yn ôl | 5 | 2.3% | 8 | 4.0% | 11 | 4.9% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 19 | 8.8% | 12 | 6.1% | 16 | 7.2% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi achos | 13 | 6.0% | 19 | 9.6% | 22 | 9.9% |
| **Cyfanswm Materion gyda Dioddefwyr** | **37** | **17.1%** | **39** | **19.7%** | **49** | **22.0%** |
| Gwrthdrawiad Tystiolaeth | 15 | 6.9% | 11 | 5.6% | 18 | 8.1% |
| Elfen Gyfreithiol Hanfodol ar Goll | 32 | 14.7% | 24 | 12.1% | 13 | 5.8% |
| Ditiad/Dedfryd Arall | 9 | 4.1% | 7 | 3.5% | 13 | 5.8% |
| Rhyddfarnu yn dilyn treial | 47 | 21.7% | 50 | 25.3% | 62 | 27.8% |
| *Cyfanswm Rhesymau Allweddol* | *140* | *64.5%* | *131* | *66.2%* | *155* | *69.5%* |
| Pob Rheswm Arall | 65 | 30.0% | 52 | 26.3% | 62 | 27.8% |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 12 | 5.5% | 15 | 7.6% | 6 | 2.7% |
| **Cyfanswm** | **217** | | **198** | | **223** | |


Dengys Tabl a siart 5 beth yw nifer a chyfran materion dioddefwyr mewn perthynas â'r holl ganlyniadau. Bu i nifer a chyfradd y rheiny fu'n aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwr gynyddu, o 37, neu 3.7%, yn 2007-08 i 49, neu 4.3%, yn 2009-10. Gostyngodd y cyfanswm o ganlyniadau aflwyddiannus o 22% yn 2007-08 i 19% yn 2009-10.

### Tabl 5 – Cymhariaeth o brif resymau dros ganlyniadau aflwyddiannus

**Rhesymau Dioddefwyr mewn cyswllt â'r holl ganlyniadau**




**% Materion dioddefwy**




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Cyfanswm Aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr* | *37* | *3.7%* | *39* | *3.8%* | *49* | *4.3%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 217 | 21.8% | 198 | 19.5% | 223 | 19.4% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 778 | 78.2% | 815 | 80.5% | 929 | 80.6% |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **995** | | **1,013** | | **1,152** | |

## Prif gategori trosedd

Ar ddiwedd achos, mae pob diffynnydd yn cael ei ddyrannu i Brif Gategori Trosedd i ddangos y math a difrifoldeb y cyhuddiadau sydd wedi'u dwyn.

Troseddau corfforol a throseddau trefn gyhoeddus oedd y categorïau mwyaf niferus, yn cynrychioli 48% a 38% o erlyniadau trosedd homoffobig yn 2009-10. Hefyd, cafodd ychydig o dan 4% eu categoreiddio fel difrod troseddol. Cofnodwyd patrwm tebyg ar gyfer dynion, gyda 47% yn cael eu categoreiddio fel troseddau corfforol, 39% fel trefn gyhoeddus, a 4% fel difrod troseddol. Roedd patrwm ychydig yn wahanol ar gyfer merched, gyda throseddau corfforol yn uwch ar 53% a threfn gyhoeddus ychydig yn is ar

36%, tra y cofnodwyd troseddau difrod troseddol yn erbyn llai nag 1% o ferched. Roedd dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn, byrgleriaeth a lladrad yn cyfrif am 4% pellach o droseddau a gofnodwyd yn erbyn merched. Dynion oedd 83% o'r diffynyddion y nodwyd mai troseddau corfforol oedd eu prif drosedd.


## Data Cydraddoldeb

### *(i) Diffynyddion*

#### Rhyw

Mae tabl 6 yn dadansoddi rhyw'r diffynyddion. Gostyngodd y gyfradd o ddiffynyddion oedd yn ddynion o 87% yn 2007-08 i 85% yn 2009-10.

**Tabl 6 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw'r Diffynnydd**




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 134 | 13.5% | 143 | 14.1% | 171 | 14.8% |
| Dynion | 861 | 86.5% | 870 | 85.9% | 981 | 85.2% |
| Ni wyddys | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **995** | | **1,013** | | **1,152** | |

#### Ethnigrwydd

Mae data ethnigrwydd data ar ddiffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS yn unol â'r diffiniadau System Cyfiawnder Troseddol cytûn ar gyfer y categorïau ethnig 16+1. Yn 2009-10, dynodwyd 75% o ddiffynyddion trosedd homoffobig fel eu bod yn perthyn i'r Categori Gwyn Prydeinig, a chafodd 79% eu categoreiddio yn Wyn, ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol ar 78% ac 81% yn ôl eu trefn. Dynodwyd bod 3% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a 5% pellach yn Ddu. Ni wnaeth 4% o ddiffynyddion ddatgan ethnigrwydd ar arestiad ac mewn 7% o achosion ni ddarparwyd ethnigrwydd y diffynnydd i'r CPS gan yr heddlu.

#### Oed


Mae data ar oedran diffynyddion yn cael ei goladu gan y CPS gyda chyfeiriad at gyfres o fandiau oed. Ni ellir dadelfennu oedrannau unigol o'r bandiau hyn. Diffynyddion rhwng 14-17 oed (19%), 18-24 oed (31%) a'r rheiny rhwng 25-59 oed (45%) oedd y categorïau mwyaf niferus yn cyfrif am 95% o ddiffynyddion yn debyg i 2007-08 pan gofnodwyd bod 96% o ddiffynyddion yn y bandiau oed hyn. Roedd 3% pellach rhwng 10-13 oed ychydig yn uwch nag yn 2007-08 pan gofnodwyd 2% o ddiffynyddion yn y categori hwn.

## *(ii) Dioddefwyr*

### Rhyw

Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw'r dioddefwyr. Cafwyd y data ar ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion, a dim ond ers Ebrill 2006 mae ar gael. Er gwaethaf gwelliannau wrth gofnodi rhyw'r dioddefwr, yn y cyfnod tair blynedd o dan adolygiad rhwng 48% ac 82% o ryw a gofnodwyd. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn dal i gael ei datblygu . O'r dioddefwyr hynny y cafodd eu rhyw ei gofnodi roedd y gyfran uchaf yn ddynion, ar 65% yn 2007 - 08 a 60% yn 2009-10.

**Tabl 7 – Rhyw Dioddefwyr**




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 103 | 16.7% | 149 | 21.0% | 336 | 33.0% |
| Dynion | 191 | 31.0% | 281 | 39.6% | 493 | 48.5% |
| Ni wyddys | 322 | 52.3% | 280 | 39.4% | 188 | 18.5% |
| **Cyfanswm** | **616** | | **710** | | **1,017** | |

### Data cydraddoldeb arall

Mae data ar ethnigrwydd ar gael o Ebrill 2006, a data ar grefydd neu gredo, oedran ac anabledd o Ebrill 2007. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn dal i gael ei datblygu – er enghraifft mae 54% ethnigrwydd y dioddefwr yn parhau heb ei ddatgan neu heb ei ddarparu a nodir bod 22% o ddata band oed wedi ei gofnodi fel heb ei ddarparu, felly nid yw'r data hwn wedi ei gynnwys yn yr adroddiad presennol.  Mae gwaith yn parhau yn 2010 – 2011 i wella casglu data a'i ansawdd.

## Mesurau Gofal Dioddefwyr:

Mae'r data yn y tablau a sylwadau isod yn ymwneud ag achosion ble y plediwyd yn ddieuog i o leiaf un drosedd yn y gwrandawiad cyntaf neu ble y bu gwrandawiad cysylltiedig â thyst, fel treial, Newton[3] neu wrandawiad rhesymau arbennig neu apêl yn erbyn euogfarn a, ble'r oedd yr Uned Gofal Tystion yn gynwysedig yn cefnogi'r dioddefwr. Ble bo dioddefwyr a thystion, mewn achosion sy'n arbennig o ddifrifol neu sensitif, yn cael eu cefnogi gan Unedau Heddlu Arbenigol, ni fydd gwybodaeth a ddarparwyd yn dangos y gefnogaeth a roddwyd yn cael ei chynnwys yn y data hwn.

[3] Gwrandawiad Newton yw pan fo diffynnydd yn pledio'n euog i'r cyhuddiad ond ei fod yn dadlau ynghylch sail ffeithiol achos yr erlyniad yn ei erbyn. Fel arfer mae hyn yn golygu fod y diffynnydd yn haeru ei fod wedi chwarae rôl lai yn y drosedd a fyddai'n golygu dedfryd lai. Mae'r broses yn debyg i dreial heblaw nad oes rheithgor.

Yn ystod y cyfnod adolygiad, nid oedd nifer o Ardaloedd CPS naill ai'n defnyddio'r System Reoli Tystion neu'n defnyddio'r system yn llawn; felly nid yw'r data a ddarperir yn yr adroddiad hwn yn gyflawn. Mae'r WMS wedi'i fwriadu ar gyfer defnydd fel system rheoli achosion ac nid offeryn monitro; felly mae'n bosib nad yw data mor gyson neu gadarn â data arall sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn. Dyma'r tro cyntaf i'r data hyn gael eu cynnwys ym Mhennod Prif Ganfyddiadau Trosedd Casineb Homoffobig a Thrawsffobig o Adroddiad Blynyddol Trosedd Casineb y CPS.

**Tabl 8 – Mesurau Gofal Tystion Dioddefwyr Trosedd Casineb Homoffobig & Thrawsffobig**

| | 2009-10 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| ***(i) Atgyfeiriadau i asiantaethau cefnogol neu archwilio cymorth arall*** | | |
| **Cyfanswm dioddefwyr *** | **637** | |
| Atgyfeiriad wedi'i gynnig | 404 | 63.4% |
| Atgyfeiriad wedi'i wneud | 198 | 49.0% |
| **Mathau o atgyfeiriadau a wnaethpwyd **** | | |
| **Cyfanswm atgyfeiriadau** | **222** | |
| Atgyfeiriad asiantaeth trosedd casineb | 5 | 2.3% |
| Atgyfeiriad Asiantaeth Cymorth i Ddioddefwyr | 30 | 13.5% |
| Atgyfeiriad Asiantaeth Gwasanaeth Tystion | 144 | 64.9% |
| Atgyfeiriad arall | 43 | 19.4% |
| **Cyfanswm dioddefwyr *** | **637** | |
| Archwilio cymorth arall | 264 | 41.4% |
| *(ii) Mesurau mynychu* | | |
| Yn ofynnol mynychu | 503 | 79.0% |
| Presenoldeb gwirioneddol | 446 | 88.7% |
| Derbyn ymweliad cyn-treial | 142 | 28.2% |

* mae'r nifer o fathau o atgyfeiriad yn debygol o fod yn fwy na'r nifer o atgyfeiriadau a wnaethpwyd oherwydd y gellir atgyfeirio'r dioddefwr i fwy nag un asiantaeth

** dioddefwyr sy'n gysylltiedig ag achosion ble y cyflwynwyd ple ddieuog ar y gwrandawiad cyntaf neu wrandawiadau cysylltiedig â thystion (treial, treial wedi ei chlywed yn rhannol, gwrandawiad Newton, gwrandawiad rhesymau arbennig neu apêl yn erbyn euogfarn).

## Atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth

Yn ystod y flwyddyn cynigwyd 404 o atgyfeiriadau (63.4% o achosion ) i ddioddefwyr trosedd casineb homoffobig a oedd yn gysylltiedig ag achosion ble y gwnaethpwyd ple di euog neu gyda gwrandawiad cysylltiedig â thyst, ac o'r rhain gwnaethpwyd 198 neu 49%. Gellir gwneud atgyfeiriadau at nifer o asiantaethau cymorth arbenigol ac mae data a gasglwyd yn dangos bod 64.9% o fathau o atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Tystion, 13.5% i Gymorth Dioddefwyr ac 2.3% at asiantaeth trosedd casineb. Roedd y 43 neu 19.4% oedd yn weddill yn destun i atgyfeiriad at asiantaeth arall. Gellir cyfeirio dioddefwr (neu dyst) at fwy nag un asiantaeth.

Mae'n debygol bod atgyfeiriadau i Gymorth Dioddefwyr neu asiantaethau arbenigol hefyd wedi'u gwneud yn gynharach yn y broses cyfiawnder troseddol gan yr heddlu neu asiantaethau eraill. Mae'n debygol bod rhai o'r dioddefwyr a atgyfeiriwyd at Gymorth Dioddefwyr wedi'u hatgyfeirio at wasanaeth arbenigol yn dilyn asesiad angen gan yr asiantaeth hon.

Ymchwiliwyd i anghenion cymorth 41.4% o ddioddefwyr trosedd casineb homoffobig, yn gysylltiedig ag achosion gyda gwrandawiad cysylltiedig â thyst neu ble mae ple ddieuog wedi ei chyflwyno, yng nghyswllt eu presenoldeb yn y llys, fel gofal plant neu gludiant. Derbyniodd 28.2% o ddioddefwyr yr oedd angen iddynt fynychu llys ymweliadau llys cyn-treial.

## Presenoldeb mewn llys

Roedd angen i 79% o ddioddefwyr trosedd casineb homoffobig, yn gysylltiedig ag achosion â gwrandawiad cysylltiedig â thyst, fynychu llys, ac o'r rhain mynychodd 88.7%. Mae'r ffigwr presenoldeb uchel yn awgrymu bod y cymorth gafodd ei ddarparu gan yr unedau gofal tystion yn helpu dioddefwyr i barhau'n gysylltiedig â'r broses cyfiawnder troseddol.

## Mesurau arbennig

Nid yw data'r CPS ar fesurau arbennig yn ddigon cadarn i'w gyhoeddi yn yr adroddiad hwn. Cynhelir prosiect ymchwil ar gyfer 2010-2011 sy'n anelu at helpu'r CPS i gael mewnwelediad i feysydd ble gwyddys efallai bod angen gwelliannau, gan gynnwys dynodi'r angen am fesurau arbennig; cyfathrebu rhwng asiantaethau a gyda thystion ynghylch Mesurau arbennig; a phrydlondeb ceisiadau mesurau arbennig.

## Codi Dedfrydau

Mae'r wybodaeth hon wedi'i chasglu ers Ebrill 2007, ond mae'n dal i gael ei datblygu. Mae'r CPS yn bwriadu gweithio â phartneriaid llywodraeth eraill megis Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi i wella casglu ac ansawdd data.

# Trosedd Casineb Anabledd

Roedd trosedd casineb anabledd wedi bod yn brif ffocws i'r CPS yn ystod 2009-2010. Mae'r gwasanaeth wedi cymryd nifer o gamau i wella ei ddealltwriaeth o drosedd casineb anabledd a'i berfformiad wrth ei daclo. Er enghraifft, cyhoeddwyd cyfarwyddyd pellach i erlynyddion ynghylch gwella adnabyddiaeth ac erlyniad achosion trosedd casineb anabledd ym Mawrth 2010 ac mae'r adolygiad thema o berfformiad trosedd casineb anabledd i'w gwblhau yn Rhagfyr 2010. Mae'r ffigyrau sydd wedi'u nodi'n hwyrach yn yr adroddiad hwn yn dangos gwelliant mawr yn y nifer o achosion sy'n dod i'r CPS, fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn ymwybodol bod gwelliannau i'w gwneud o hyd.

Mae'r ganran o berfformiad canlyniadau llwyddiannus ar drosedd casineb anabledd wedi gwella am y tro cyntaf, ac mae nifer yr achosion a erlynwyd yn parhau i gynyddu o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r cynnydd parhaus mewn nifer, wedi'i gyfuno â'r gwelliant mewn canlyniadau llwyddiannus, yn galonogol iawn.

**Astudiaeth achos: Trosedd casineb anabledd**

Roedd mam gyda'i dau o blant, merch 21 oed gyda nam gweledol, a mab 16 oed gyda syndrom Aspergers, yn byw ddau ddrws i ffwrdd oddi wrth y diffynnydd. Roeddynt yn destun i gyfnod o aflonyddu dros 9 mis. Daeth yr aflonyddu oddi wrth grŵp yn eu harddegau, a'r diffynnydd oedd y prif symbylydd a'r arweinydd. Yn ogystal â chamdriniaeth eiriol, roedd cerrig yn cael eu taflu a chafwyd difrod i'r eiddo, ymosododd y diffynnydd ar gymorth gweledol y ferch â nam gweledol, gan achosi iddi ddisgyn. Roedd y gamdriniaeth eiriol yn cynnwys galw'r ferch yn 'fat pirate' (roedd hi'n gwisgo clwt ar ei llygaid), a galw'r mab yn 'stupid fucking spacka'.

Awdurdododd y CPS gyhuddiad o dan a.2 o'r Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu. Dynododd y cyfreithiwr a oedd yn cyhuddo hyn yn syth fel trosedd casineb, a chyfeirio at a.146 yn y cofnodion cyhuddo. Llediodd y diffynnydd yn ddieuog a chynhaliwyd treial diannod llawn yn y Llys Ynadon ar 28.1.10. Cafodd y diffynnydd ei euogfarnu a'i ddedfrydu i 22 wythnos (y mwyafswm yw 26). Defnyddiodd y llys adran 146 yn y cam dedfrydu a chaniatáu'r cais am orchymyn ataliol. Apeliodd y diffynnydd yn erbyn ei ddedfryd a chynhaliodd cydlynydd trosedd casineb ardal yr apêl.

Roedd y Barnwr a'r Ynadon wedi'u brawychu gan ymddygiad y diffynnydd a gwrthodasant yr apêl. Ar ddiwedd yr achos, ffoniodd y fam y gwasanaeth gofal tystion a diolch i'r uned gofal tystion am wasanaeth da.


# Prif Ganfyddiadau Trosedd Casineb Anabledd

## Cyhuddo

Mae data'r CPS data yn cael ei dynnu o system TG weinyddol y CPS, ac mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer rheoli perfformiad mewnol. Felly, ni ddylid ystyried y data hwn fel ystadegau swyddogol y Llywodraeth; yn yr un modd ag unrhyw system gofnodi graddfa fawr, gall camgymeriadau ddigwydd o ganlyniad i wallau wrth fewnbynnu a phrosesu'r data. Ffigyrau dros dro yw'r rhain ac yn destun i newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei gofnodi gan y CPS.

Penderfynodd y CPS y dylai'r diffinydd gael ei gyhuddo mewn 70% o'r holl droseddau casineb anabledd a atgyfeiriwyd at y Gwasanaeth yn 2009-10, sy'n uwch na'r 67% a gyhuddwyd yn 2007-08.

### Tabl 1 – Penderfyniadau Cyn-Cyhuddo*





| Pob Diffynnydd | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Cyhuddwyd | 187 | 67.0% | 292 | 65.8% | 506 | 70.3% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 2 | 0.7% | 5 | 1.1% | 10 | 1.4% |
| Dim erlyniad | 75 | 26.9% | 109 | 24.5% | 157 | 21.8% |
| Pob penderfyniad arall | 15 | 5.4% | 38 | 8.6% | 47 | 6.5% |
| **Cyfanswm** | **279** | | **444** | | **720** | |

Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2006
* Nid yw'r ffigyrau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad 2007-08 yn cynnwys yr achosion hynny ble na ddaliwyd yn llawn ddeilliant y penderfyniad yng nghofnodion y CPS. Er mwyn cyflawnrwydd, nid yw'r canlyniadau hyn wedi'u hychwanegu at yr adroddiad presennol. Mae'r ffigyrau uchod felly'n wahanol i adroddiad 2007-08.

## Euogfarnau

Yn y tair blynedd oedd yn diweddu Mawrth 2010, erlynwyd 1,214 o ddiffynyddion am droseddau casineb anabledd. Mae Tabl a siart 2 isod yn dangos dadansoddiad o'r canlyniadau, yn dangos bod 76% o achosion a gwblhawyd wedi diweddu mewn euogfarn yn 2009-10.

**Table 2 - Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad**





| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 141 | 77.0% | 299 | 76.1% | 483 | 75.7% |
| Aflwyddiannus | 42 | 23.0% | 94 | 23.9% | 155 | 24.3% |
| **Cyfanswm** | **183** | | **393** | | **638** | |


Mae'r tabl a siartiau isod yn dangos dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyniad ar gyfer troseddau casineb anabledd yn y tair blynedd yn gorffen yn 2009-10. Pledion euog oedd 66% o'r cyfanswm, gostyngiad o 8 o bwyntiau canrannol ar 2007-08, pan fu i 72% o'r holl ddiffynyddion bledio'n euog ond 5 bwynt yn uwch na'r gyfradd pledion euog yn 2008-09. Fodd bynnag arhosodd y gyfradd euogfarn yn wastad ar 77% - 76% yn y cyfnod hwn, yn bennaf oherwydd cynnydd mewn euogfarnau ar ôl treial yn y cyfnod tair blynedd o 6% i 10%. Gostyngodd yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, gan gynnwys achosion yn dirwyn i ben ac achosion ble na chynigwyd unrhyw dystiolaeth, o 15% o gyfanswm y canlyniadau i 13%.

**Tabl 3 – Canlyniadau Erlyniad**

**Euogfarnau**



**Canlyniadau Aflwyddiannus**




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Erlyniadau a Ollyngwyd gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl* | *27* | *14.8%* | *69* | *17.6%* | *83* | *13.0%* |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *16* | *8.7%* | *41* | *10.4%* | *46* | *7.2%* |
| Gwrthodwyd yn dilyn treial llawn | 12 | 6.6% | 11 | 2.8% | 28 | 4.4% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 0 | 0.0% | 1 | 0.3% | 9 | 1.4% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 2 | 1.1% | 3 | 0.8% | 22 | 3.4% |
| Yr holl ganlyniadau aflwyddiannus eraill | 1 | 0.5% | 10 | 2.5% | 13 | 2.0% |
| **Canlyniadau Aflwyddiannus** | **42** | **23.0%** | **94** | **23.9%** | **155** | **24.3%** |
| Ple euog | 131 | 71.6% | 240 | 61.1% | 419 | 65.7% |
| Euogfarnu yn dilyn treial | 10 | 5.5% | 57 | 14.5% | 64 | 10.0% |
| Profwyd yn absenoldeb | 0 | 0.0% | 2 | 0.5% | 0 | 0.0% |
| **Euogfarnau** | **141** | **77.0%** | **299** | **76.1%** | **483** | **75.7%** |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **183** | | **393** | | **638** | |


## Erlyniadau aflwyddiannus

Gall achosion fethu oherwydd rhesymau tystiolaethol, rhesymau diddordeb cyhoeddus, achos yn methu bwrw ymlaen, achos yn destun i gwblhau'r gwaith gweinyddol, ac am resymau eraill (gan gynnwys y rheiny sy'n arwain at rwymo a rhyddfarnu yn dilyn treial). Yn 2009 - 10 y categori tystiolaethol oedd y mwyaf ar 40.0% o'r holl resymau dros ganlyniadau aflwyddiannus, ac achosion yn methu am resymau eraill yn cyfrif am 33.5% pellach. Bu 3.2% yn aflwyddiannus am resymau gweinyddol; ychydig o newid fu yn y gyfradd fu'n aflwyddiannus am resymau diddordeb cyhoeddus yn y cyfnod o dan adolygiad ar 8.4% o'i gymharu â 7.1% yn 2007 - 08; â 14.8% ddim yn gallu bwrw ymlaen, gostyngiad o'r 19% a gofnodwyd yn 2007 - 08.

Mae Tabl 4 yn rhoi dadansoddiad mwy manwl, yn dangos y gyfradd a fethodd oherwydd prif resymau, yn cynnwys materion dioddefwyr (yn cynnwys dioddefwyr yn tynnu'n ôl, achosion ble na fu i'r dioddefwr fynychu gwrandawiad llys a ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos), y rheiny ble roedd elfen gyfreithiol hanfodol ar goll, ble roedd gwrthdaro tystiolaeth, a'r rhai ble cafodd y diffynnydd ryddfarniad. O fewn y prif resymau hyn, elfen gyfreithiol hanfodol ar goll, gwrthdaro tystiolaeth a rhyddfarnau ar ôl treial oedd y categorïau sengl mwyaf ar 13%, 12% a 29% yn ôl eu trefn. O fewn

materion dioddefwyr, gostyngodd y cyfraddau o ddioddefwyr yn tynnu'n ôl o 12% i 7%; a gostyngodd y cyfraddau o ddioddefwyr ddim yn mynychu a ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos o 5% i 4%. Cynyddodd achosion a fethodd oherwydd y prif resymau cyffredinol o 60% i 69%.

**Tabl 4 – Prif resymau dros erlyniadau aflwyddiannus**





| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu Cyhuddiad yn ôl | 5 | 11.9% | 7 | 7.4% | 11 | 7.1% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 2 | 4.8% | 2 | 2.1% | 6 | 3.9% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi achos | 2 | 4.8% | 6 | 6.4% | 6 | 3.9% |
| **Cyfanswm Materion gyda Dioddefwyr** | **9** | **21.4%** | **15** | **16.0%** | **23** | **14.9%** |
| Gwrthdrawiad Tystiolaeth | 2 | 4.8% | 4 | 4.3% | 19 | 12.3% |
| Elfen Gyfreithiol Hanfodol ar Goll | 1 | 2.4% | 21 | 22.3% | 20 | 12.9% |
| Ditiad/Dedfryd Arall | 0 | 0.0% | 2 | 2.1% | 0 | 0.0% |
| Rhyddfarnu yn dilyn treial | 13 | 31.0% | 12 | 12.8% | 45 | 29.0% |
| ***Cyfanswm Rhesymau Allweddol*** | ***25*** | ***59.5%*** | ***54*** | ***57.4%*** | ***107*** | ***69.1%*** |
| Pob Rheswm Arall | 17 | 40.5% | 38 | 40.4% | 43 | 27.7% |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 0 | 0.0% | 2 | 2.1% | 5 | 3.2% |
| **Cyfanswm** | **42** | | **94** | | **155** | |


Mae Tabl a siart 5 yn dangos bod materion dioddefwyr yn cynrychioli 23 o ddiffynyddion, neu 4%, yn 2009-10. Roedd canlyniadau aflwyddiannus yn dod i 24% o'r cyfanswm yn 2009-10 o'i gymharu â 23% yn 2007-08.

## Table 5 – Cymhariaeth o'r prif resymau dros ganlyniadau aflwyddiannus

### Prif resymau mewn cyswllt â'r holl ganlyniadau




### % Materion dioddefwyr




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Cyfanswm Aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr* | *9* | *4.9%* | *15* | *3.8%* | *23* | *3.6%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 42 | 23.0% | 94 | 23.9% | 155 | 24.3% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 141 | 77.0% | 299 | 76.1% | 483 | 75.7% |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **183** | | **393** | | **638** | |

## Prif gategori trosedd

Ar ddiwedd achos, mae pob achos diffynnydd yn cael ei ddyrannu i Brif Gategori Trosedd i ddangos math a difrifoldeb y cyhuddiadau sydd wedi'u dwyn.

Troseddau corfforol oedd y categori mwyaf niferus, yn cynrychioli 52% o erlyniadau trosedd casineb anabledd yn 2009-10 sy'n debyg i'r 53% a gofnodwyd yn 2007-08. Roedd troseddau trefn gyhoeddus, dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn, troseddau rhywiol a lladrad yn cyfrif am 11% pellach (13% yn 2007 – 08), 8% (8%), 6% (2%) a 7% (4%) yn ôl eu trefn. Gostyngodd y cyfrannau a gofnodwyd fel byrgleriaeth o 9% i 5%. Cofnodwyd patrwm tebyg ar gyfer dynion, â 52% yn cael eu categoreiddio fel troseddau corfforol, 11% fel trefn gyhoeddus, 6% fel dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn, troseddau rhywiol 7% a 7% fel lladrad. Roedd patrwm ychydig yn wahanol ar gyfer merched, troseddau corfforol a threfn

gyhoeddus yn debyg ar 51% a 11%. Roedd dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn a lladrad llawer uwch ar 16% a 9% tra'r oedd troseddau twyll a ffugio yn cyfrif am 5% pellach. Dynion oedd 84% o'r diffynyddion ble y dynodwyd y brif drosedd fel trosedd gorfforol, â merched yn 35% o'r diffynyddion a categoreiddiwyd â throsedd dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn. Roedd patrwm y troseddau'n wahanol i batrwm troseddau casineb eraill, gyda lefel is o droseddau trefn gyhoeddus a chyfran uwch o droseddau eiddo (dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn, byrgleriaeth a lladrad).


## Cydraddoldeb

### *(i) Diffynyddion*

#### Rhyw

Mae tabl 6 yn dadansoddi rhyw'r diffynyddion. Roedd 83% o'r diffynyddion a erlynwyd yn ddynion, yn debyg i feysydd trosedd casineb eraill.

**Tabl 6 – Erlyniadau A Gwblhawyd yn ôl Rhyw'r Diffynnydd**




| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 33 | 18.0% | 83 | 21.1% | 108 | 16.9% |
| Dynion | 150 | 82.0% | 310 | 78.9% | 530 | 83.1% |
| Ni wyddys | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **183** | | **393** | | **638** | |

#### Ethnigrwydd

Mae data ethnigrwydd data ar ddiffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS yn unol â'r diffiniadau System Cyfiawnder Troseddol cytûn ar gyfer y categorïau ethnig 16+1. Yn 2009-10, cafodd 72% o ddiffynyddion trosedd casineb anabledd eu dynodi fel eu bod yn perthyn i'r Categori Gwyn Prydeinig, â 75% yn cael eu categoreiddio yn Wyn, o'i gymharu â 78% ac 80% yn 2008-09. Dynodwyd 2% o ddiffynyddion fel Asiaidd, ac 8% yn Ddu o'i gymharu â 4% yn 2007 -08. Ni wnaeth 3% o ddiffynyddion ddatgan eu hethnigrwydd ar arestiad ac mewn 8% o achosion pellach ni ddarparwyd ethnigrwydd y diffynnydd gan yr heddlu.

#### Oed


Mae data ar oedran diffynyddion yn cael ei goladu gan y CPS gyda chyfeiriad at gyfres o fandiau oed. Ni ellir dadelfennu oedrannau unigol o'r bandiau hyn. Diffynyddion rhwng 14 - 17 oed (19%), 18 - 24 oed (24%) a rheiny rhwng 25 - 59 oed (51%) oedd y categorïau mwyaf niferus yn cyfrif am 94% o ddiffynyddion yn debyg i 2007-08 pan oedd 90% o ddiffynyddion wedi'u cofnodi yn y bandiau oed hyn. Roedd 3% pellach rhwng 10-13 oed sy'n is nag yn 2007- 08 pan gofnodwyd 5% o ddiffynyddion yn y categori hwn.

## *(ii) Dioddefwyr*

### Rhyw

Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw'r dioddefwyr. Mae data ar ddioddefwyr yn cael eu tynnu o'r System Reoli Tystion, ac maent ar gael ar gyfer troseddau casineb anabledd o Ebrill 2007: fodd bynnag, er gwaethaf gwelliannau mewn cofnodi data o 44% o ryw wedi'i gofnodi yn 2007- 08 i 76% yn 2009-10, mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn dal i gael ei datblygu. O'r dioddefwyr hynny ble na ddynodwyd eu rhyw yn 2009-10, roedd 51% yn ddynion a 49% yn ferched. Mae hyn yn groes i'r meysydd trosedd casineb eraill ble'r oedd cyfran uwch o'r dioddefwyr yn ddynion.

**Tabl 7 – Rhyw Dioddefwyr***




*Cafodd data o 2006-07 ei adrodd ar gyfer yr holl ddioddefwyr boed yn sifiliaid neu beidio, mae data o 2007-8 ymlaen ond yn adrodd ar ddioddefwyr sy'n sifiliaid.

| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 30 | 20.8% | 106 | 37.9% | 203 | 37.4% |
| Dynion | 33 | 22.9% | 85 | 30.4% | 211 | 38.9% |
| Ni wyddys | 81 | 56.3% | 89 | 31.8% | 129 | 23.8% |
| **Cyfanswm** | **144** | | **280** | | **543** | |

### Data cydraddoldeb arall

Mae data ar ethnigrwydd ar gael o Ebrill 2006, a data ar grefydd neu gredo, oedran ac anabledd o Ebrill 2007. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn dal i gael ei datblygu – er enghraifft mae 33% ethnigrwydd y dioddefwr yn parhau heb ei ddatgan neu heb ei ddarparu a nodir bod 16% o ddata band oed wedi ei gofnodi fel heb ei ddarparu, felly nid yw'r data hwn wedi ei gynnwys yn yr adroddiad presennol.  Mae gwaith yn parhau yn 2010-11 i wella casglu data a'i ansawdd.

## Mesurau Gofal Dioddefwyr

Mae'r data yn y tablau a sylwadau isod yn ymwneud ag achosion ble y plediwyd yn ddieuog i o leiaf un drosedd yn y gwrandawiad cyntaf neu ble y bu gwrandawiad cysylltiedig â thyst, fel treial, Newton[4] neu wrandawiad rhesymau arbennig neu apêl yn erbyn euogfarn a, ble'r oedd yr Uned Gofal Tystion yn gynwysedig yn cefnogi'r dioddefwr. Ble bo dioddefwyr a thystion, mewn achosion sy'n arbennig o ddifrifol neu sensitif, yn cael eu cefnogi gan Unedau Heddlu Arbenigol, ni fydd gwybodaeth a ddarparwyd yn dangos y gefnogaeth a roddwyd yn cael ei chynnwys yn y data hwn.

Yn ystod y cyfnod adolygiad, nid oedd nifer o Ardaloedd CPS naill ai'n defnyddio'r System Reoli Tystion neu'n defnyddio'r system yn llawn; felly nid yw'r data a ddarperir yn yr adroddiad hwn yn gyflawn. Mae'r WMS wedi'i fwriadu ar gyfer defnydd fel system rheoli achosion ac nid offeryn monitro; felly mae'n bosib nad yw data mor gyson neu gadarn â data arall sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn. Dyma'r tro cyntaf i'r data hyn gael eu cynnwys ym Mhennod Prif Ganfyddiadau Trosedd Casineb Anabledd o Adroddiad Blynyddol Trosedd Casineb y CPS.

### Tabl 8 – Mesurau Gofal Dioddefwr Tyst Trosedd Casineb Anabledd

| | 2009-10 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| *(i) Atgyfeiriadau i asiantaethau cefnogol neu archwilio cymorth arall* | | |
| **Cyfanswm dioddefwyr *** | **298** | |
| Atgyfeiriad wedi'i gynnig | 149 | 50.0% |
| Atgyfeiriad wedi'i wneud | 91 | 61.1% |
| **Mathau o atgyfeiriadau a wnaethpwyd **** | | |
| **Cyfanswm atgyfeiriadau** | **108** | |
| Atgyfeiriad asiantaeth trosedd casineb | 1 | 0.9% |
| Atgyfeiriad Asiantaeth Cymorth i Ddioddefwyr | 21 | 19.4% |
| Atgyfeiriad Asiantaeth Gwasanaeth Tystion | 73 | 67.6% |
| Atgyfeiriad arall | 13 | 12.0% |
| **Total victims *** | **298** | |
| Archwilio cymorth arall | 111 | 37.2% |
| *(ii) Mesurau mynychu* | | |
| Yn ofynnol mynychu | 166 | 55.7% |
| Presenoldeb gwirioneddol | 150 | 90.4% |
| Derbyn ymweliad cyn-treial | 65 | 39.2% |

* mae'r nifer o fathau o atgyfeiriad yn debygol o fod yn fwy na'r nifer o atgyfeiriadau a wnaethpwyd oherwydd y gellir atgyfeirio'r dioddefwr i fwy nag un asiantaeth

** dioddefwyr sy'n gysylltiedig ag achosion ble y cyflwynwyd ple ddieuog ar y gwrandawiad cyntaf neu wrandawiadau cysylltiedig â thystion (treial, treial wedi ei chlywed yn rhannol, gwrandawiad Newton, gwrandawiad rhesymau arbennig neu apêl yn erbyn euogfarn).

[4] Gwrandawiad Newton yw pan fo diffynnydd yn pledio'n euog i'r cyhuddiad ond ei fod yn dadlau ynghylch sail ffeithiol achos yr erlyniad yn ei erbyn. Fel arfer mae hyn yn golygu fod y diffynnydd yn haeru ei fod wedi chwarae rôl lai yn y drosedd a fyddai'n golygu dedfryd lai. Mae'r broses yn debyg i dreial heblaw nad oes rheithgor.

## Atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth

Yn ystod y flwyddyn cynigwyd 149 o atgyfeiriadau (50% o achosion) i ddioddefwyr trosedd casineb anabledd a oedd yn gysylltiedig ag achosion ble y gwnaethpwyd ple di euog neu gyda gwrandawiad cysylltiedig â thyst, ac o'r rhain gwnaethpwyd 91 neu 61.1%. Gellir gwneud atgyfeiriadau i nifer o asiantaethau cymorth arbenigol ac mae data sy'n cael ei gasglu yn dangos bod 67.6% o fathau atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Tystion, 19.4% i Gymorth Dioddefwyr ac 0.9% at asiantaeth trosedd casineb. Bu'r 13 neu 12% oedd yn weddill yn destun i atgyfeiriad at asiantaeth arall. Gellir cyfeirio dioddefwr (neu dyst) at fwy nag un asiantaeth.

Mae'n debygol bod atgyfeiriadau i Gymorth Dioddefwyr neu asiantaethau arbenigol hefyd wedi'u gwneud yn gynharach yn y broses cyfiawnder troseddol gan yr heddlu neu asiantaethau eraill. Mae'n debygol bod rhai o'r dioddefwyr a atgyfeiriwyd at Gymorth Dioddefwyr wedi'u hatgyfeirio at wasanaeth arbenigol yn dilyn asesiad angen gan yr asiantaeth hon.

Ymchwiliwyd i anghenion cymorth 37.2% o ddioddefwyr trosedd casineb anabledd, yn gysylltiedig ag achosion gyda gwrandawiad cysylltiedig â thyst neu ble mae ple ddieuog wedi ei chyflwyno, yng nghyswllt eu presenoldeb yn y llys, fel gofal plant neu gludiant. Derbyniodd 39.2% o ddioddefwyr yr oedd angen iddynt fynychu llys ymweliadau llys cyn-treial.

## Presenoldeb mewn llys

Roedd gofyn i 55.7% o ddioddefwyr trosedd casineb anabledd, yn gysylltiedig ag achosion â gwrandawiad cysylltiedig â thyst, fynychu llys, ac o'r rhain mynychodd 90.4%. Mae'r ffigwr presenoldeb uchel yn awgrymu bod y cymorth gafodd ei ddarparu gan yr unedau gofal tystion yn helpu dioddefwyr i barhau'n gysylltiedig â'r broses cyfiawnder troseddol.

## Mesurau arbennig

Nid yw data'r CPS ar fesurau arbennig yn ddigon cadarn i'w gyhoeddi yn yr adroddiad hwn. Cynhelir prosiect ymchwil ar gyfer 2010-2011 sy'n anelu at helpu'r CPS i gael mewnwelediad i feysydd ble gwyddys efallai bod angen gwelliannau, gan gynnwys dynodi'r angen am fesurau arbennig; cyfathrebu rhwng asiantaethau a gyda thystion ynghylch mesurau arbennig; a phrydlondeb ceisiadau mesurau arbennig.

## Codi Dedfrydau:

Mae'r wybodaeth hon wedi'i chasglu ers Ebrill 2007, ond mae'n dal i gael ei datblygu. Mae'r CPS yn bwriadu gweithio â phartneriaid llywodraeth eraill megis Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi i wella casglu ac ansawdd data.

# Troseddau yn Erbyn Unigolion Hŷn

Mae’r CPS yn cydnabod bod troseddau yn erbyn pobl hŷn yn digwydd yng nghyd-destun poblogaeth sy’n byw’n h n ble gall pobl h n ddioddef agweddau negyddol a rhagfarnllyd. Y flwyddyn hon mae nifer yr achosion a gyhuddwyd gan y CPS wedi cynyddu’n fawr iawn. Hefyd, mae’r gyfradd erlyniad llwyddiannus wedi gwella, sy’n galonogol.

**Astudiaeth Achos: Lerpwl**

Roedd y dioddefwraig yn ddynes 78 oed yn glaf yn yr ysbyty ble’r oedd y diffynnydd yn gweithio. Y diffynnydd oedd y uwch brif nyrs ar ddyletswydd pan gafodd y claf ei derbyn. Bu iddi ddwyn cerdyn debyd y dioddefwraig a’i ddefnyddio i siopa a thynnu arian o allfeydd arian lleol yn Southport Glannau Merswy.

Er bod y troseddau twyll yn dechnegol yn erbyn rhoddwr y cerdyn, y ddioddefwraig oedd yr unigolyn a ddioddefodd drallod mawr  o ganlyniad i’r drosedd. Yn anffodus, bu farw’r ddioddefwraig yn ystod yr achos ond gwnaethpwyd cais llwyddiannus i gyflwyno ei thystiolaeth o dan ddarpariaethau tystiolaeth ail-law.

Roedd y dystiolaeth yn erbyn y diffynnydd yn amgylchiadol ac yn bennaf yn cynnwys ffilm CCTV, fodd bynnag roedd yr erlyniad yn gallu bodloni’r rheithgor, a rhoddwyd euogfarn i’r diffynnydd y mis hwn. Mae’r diffynnydd yn treulio dedfryd o 8 mis.

# Prif ganfyddiadau Troseddau yn Erbyn Unigolion Hŷn


Dechreuodd y CPS fonitro effeithiolrwydd erlyniadau ble mae troseddau yn erbyn unigolyn hŷn wedi'u nodi yn Ebrill 2008. Mae'r data sydd wedi'i adrodd yn y tablau a siartiau prif ganfyddiadau hyn ar gyfer cyfnodau 2008-09 a 2009-10.

Mae data'r CPS data yn cael ei dynnu o system TG weinyddol y CPS, ac mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer rheoli perfformiad mewnol. Felly, ni ddylid ystyried y data hwn fel ystadegau swyddogol y Llywodraeth; yn yr un modd ag unrhyw system gofnodi graddfa fawr, gall camgymeriadau ddigwydd o ganlyniad i wallau wrth fewnbynnu a phrosesu'r data. Ffigyrau dros dro yw'r rhain ac yn destun i newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei gofnodi gan y CPS.

## Cyhuddo

Yn y ddwy flynedd oedd yn gorffen Mawrth 2010, atgyfeiriwyd 3,690 o ddiffynyddion â throseddau yn erbyn unigolyn hŷn i'r CPS ar gyfer penderfyniad cyhuddo. Mae'r tabl a'r siart isod yn dangos bod penderfyniad i gyhuddo wedi ei wneud mewn 2,628 neu 71% o'r rhain. Yn 2009-10 gwnaethpwyd penderfyniad i gyhuddo mewn 70% o'r rhai a gyflwynwyd i'r CPS: sy'n is na'r 73% a gyhuddwyd yn 2008- 09.

**Tabl 1 – Penderfyniadau Cyn-Cyhuddo ***





| | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Cyhuddwyd | 1,086 | 72.7% | 1,542 | 70.2% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 21 | 1.4% | 35 | 1.6% |
| Dim erlyniad | 279 | 18.7% | 374 | 17.0% |
| Pob penderfyniad arall | 108 | 7.2% | 245 | 11.2% |
| **Cyfanswm** | **1,494** | | **2,196** | |

## Euogfarnau

Yn y ddwy flynedd oedd yn gorffen Mawrth 2010, erlynwyd 2,997 o ddiffynyddion am droseddau yn erbyn pobl hŷn. Mae Tabl a siart 2 isod yn rhoi rhaniad o'r canlyniadau, yn dangos bod 82% o achosion a gafodd eu cwblhau wedi diweddu mewn euogfarn yn 2009-10.

### Tabl 2 – Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl Canlyniad





| | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 790 | 78.7% | 1,641 | 82.3% |
| Aflwyddiannus | 214 | 21.3% | 352 | 17.7% |
| **Cyfanswm** | **1,004** | | **1,993** | |


Mae'r tabl a siartiau isod yn dangos dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyniad ar gyfer troseddau yn erbyn unigolion hŷn yn y ddwy flynedd oed yn gorffen 2009-10. Roedd pledion euog ac euogfarnau ar ôl treial yn cynrychioli 72% a 10% o'r cyfanswm yn ôl eu trefn o'u cymharu â 70% ac 8% yn y flwyddyn flaenorol yn cyfrannu at well cyfradd euogfarn yn y cyfnod o 79% i 82%. Gostyngodd erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, gan gynnwys dirwyn i ben ac achosion ble na chynigwyd unrhyw dystiolaeth, o 14% o'r holl ganlyniadau i 10%.

### Tabl 3 – Canlyniadau Erlyniad

#### Euogfarnau



### Canlyniadau Aflwyddiannus




| | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| *Erlyniadau a Ollyngwyd gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl* | 140 | *13.9%* | *204* | *10.2%* |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *65* | *6.5%* | *97* | *4.9%* |
| Gwrthodwyd yn dilyn treial llawn | 38 | 3.8% | 54 | 2.7% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 1 | 0.1% | 12 | 0.6% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 16 | 1.6% | 33 | 1.7% |
| Yr holl ganlyniadau aflwyddiannus eraill | 19 | 1.9% | 49 | 2.5% |
| **Canlyniadau Aflwyddiannus** | 214 | 21.3% | 352 | 17.7% |
| Ple euog | 707 | 70.4% | 1,438 | 72.2% |
| Euogfarnu yn dilyn treial | 83 | 8.3% | 201 | 10.1% |
| Profwyd yn absenoldeb | 0 | 0.0% | 2 | 0.1% |
| **Euogfarnau** | 790 | 78.7% | 1,641 | 82.3% |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **1,004** | | **1,993** | |


## Erlyniadau aflwyddiannus

Gall achosion fethu oherwydd rhesymau tystiolaethol, rhesymau diddordeb cyhoeddus, achos yn methu bwrw ymlaen, achos yn destun i gwblhau'r gwaith gweinyddol, ac am resymau eraill (gan gynnwys y rhai hynny sy'n arwain at rwymo a rhyddfarnu yn dilyn treial). Yn 2009-10 y categori tystiolaethol oedd y mwyaf ar 39.5% o'r holl resymau dros ganlyniadau aflwyddiannus, ac roedd achosion a fethodd am resymau eraill yn cyfrif am 27.3% pellach. Bu 7.1% yn aflwyddiannus am resymau gweinyddol; 15.6% am resymau diddordeb cyhoeddus; a 10.5% ddim yn gallu bwrw ymlaen. Er bod y cyfraddau'n amrywio wrth gymharu â'r flwyddyn flaenorol, roedd patrwm gweddol debyg o resymau dros fethiannau achos â thystiolaethol a rhesymau eraill y categorïau mwyaf ar 78.9% o gyfanswm canlyniadau aflwyddiannus yn 2008-09.

Mae Tabl 4 yn rhoi dadansoddiad mwy manwl, yn dangos y gyfradd a fethodd oherwydd prif resymau, yn cynnwys materion dioddefwyr (yn cynnwys dioddefwyr yn tynnu'n ôl, achosion ble na wnaeth y dioddefwr fynychu gwrandawiad llys a ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos), rheiny ble roedd elfen gyfreithiol hanfodol ar goll, ble roedd gwrthdaro mewn tystiolaeth, a'r rheiny ble cafodd y diffynnydd ei ryddfarnu. O fewn y prif resymau hyn, elfen gyfreithiol hanfodol ar goll, gwrthdaro tystiolaeth a rhyddfarnau ar ôl treial oedd y categorïau sengl mwyaf ar 14%, 8% a 23% yn ôl eu trefn. O fewn y materion dioddefwyr, cynyddodd y cyfraddau o ddioddefwyr yn tynnu'n ôl o 4% i 8%; ond gostyngodd

nifer yr achosion ble na wnaeth y dioddefwr fynychu a ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos o 4% i 3% ac o 7% i 5% yn ôl eu trefn. Gostyngodd achosion a fethodd oherwydd prif resymau cyffredinol o 68% i 65%.

**Tabl 4 – Prif resymau dros erlyniadau aflwyddiannus**





| | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu Cyhuddiad yn ôl | 8 | 3.7% | 27 | 7.7% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 8 | 3.7% | 10 | 2.8% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi achos | 14 | 6.5% | 19 | 5.4% |
| **Cyfanswm Materion gyda Dioddefwyr** | ***30*** | ***13.9%*** | ***56*** | ***15.9%*** |
| Gwrthdrawiad Tystiolaeth | 25 | 11.7% | 28 | 8.0% |
| Elfen Gyfreithiol Hanfodol ar Goll | 35 | 16.4% | 50 | 14.2% |
| Ditiad/Dedfryd Arall | 9 | 4.2% | 13 | 3.7% |
| Rhyddfarnu yn dilyn treial | 47 | 22.0% | 80 | 22.7% |
| *Cyfanswm Rhesymau Allweddol* | ***146*** | ***68.2%*** | ***227*** | ***64.5%*** |
| Pob Rheswm Arall | 58 | 27.1% | 100 | 28.4% |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 10 | 4.7% | 25 | 7.1% |
| **Cyfanswm** | **214** | | **352** | |


Mae Tabl a Siart 5 yn dangos bod materion dioddefwyr yn cynrychioli 56 diffynnydd, neu 3%, yn 2009-10. Daeth canlyniadau aflwyddiannus i 18% o'r cyfanswm yn 2009-10 o'i gymharu â 21% yn 2007-08.

## Tabl 5 – Cymhariaeth o'r Prif Resymau Dros Ganlyniadau Aflwyddiannus

### Prif resymau yn achos yr holl ganlyniadau




### % Materion dioddefwyr




| | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| *Cyfanswm Aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr* | *30* | *3.0%* | *56* | *2.8%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 214 | 21.3% | 352 | 17.7% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 790 | 78.7% | 1,641 | 82.3% |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **1,004** | | **1,993** | |

## Categori'r prif drosedd:

Ar ddiwedd achosion, mae achos pob diffynnydd yn cael Prif Gategori Trosedd, i ddangos math a difrifoldeb y cyhuddiadau a wnaethpwyd.

Troseddau yn erbyn eiddo, byrgleriaeth (22%), dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn (20%), lladrad (7%) a thwyll a ffugio (11%) oedd y categorïau mwyaf niferus, yn cynrychioli 60% o erlyniadau troseddau yn erbyn unigolyn hŷn yn 2009-10 sydd ychydig yn uwch na'r 55% a gofnodwyd yn 2008 - 09. Troseddau corfforol oedd y categori sengl mwyaf yn cyfrif am 27% yn debyg i 2008-09, ar 28%. Cofnodwyd patrwm tebyg ar gyfer dynion, gyda 58% yn cael eu categoreiddio fel troseddau yn erbyn eiddo a 27% fel troseddau corfforol. Roedd patrwm ychydig yn wahanol ar gyfer merched, gyda throseddau corfforol yn debyg ar 26%; roedd troseddau eiddo yn cyfrif am 68%. Y categori mwyaf ar gyfer merched oedd  troseddau dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn, a oedd yn 36% o'r cyfanswm. Dynion oedd 80% o'r diffynyddion ble y dynodwyd eu prif drosedd fel troseddau corfforol, gyda merched yn 36% o ddiffynyddion wedi'u categoreiddio fel trosedd dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn.


## Cydraddoldeb

### *(i) Diffynyddion*

#### Rhyw

Mae tabl 6 yn dadansoddi rhyw'r diffynyddion. Roedd 79% o’r diffynyddion a erlynwyd yn ddynion a 21% yn ferched yn 2009-10.

**Tabl 6 – Erlyniadau wedi’u Cwblhau yn ôl Rhyw'r Diffynnydd**




| | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 243 | 24.2% | 425 | 21.3% |
| Dynion | 760 | 75.7% | 1,568 | 78.7% |
| Ni wydds | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **1,004** | | **1,993** | |

#### Ethnigrwydd

Mae data ar ethnigrwydd y diffynnydd yn cael ei gasglu gan y CPS yn unol â diffiniadau System Cyfiawnder Troseddol cytunedig ar gyfer yr 16+1 categori ethnig. Yn 2009-10, dynodwyd bod 76% o ddiffynyddion troseddau yn erbyn unigolyn hŷn fel eu bod yn perthyn i’r Categori Gwyn Prydeinig, a 81% wedi’u categoreiddio yn Wyn, o’i gymharu â 77% ac 83% yn 2008-09. Dynodwyd 4% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a 4% pellach yn Ddu. Ni wnaeth 3% o ddiffynyddion ddatgan ethnigrwydd ar arestiad, ac mewn 4% o achosion pellach ni wnaeth yr heddlu ddarparu’r ethnigrwydd i’r CPS.

#### Oed


Mae data ar oedran diffynyddion yn cael ei goladu gan y CPS gyda chyfeiriad at gyfres o fandiau oed. Ni ellir dadelfennu oedrannau unigol o’r bandiau hyn. Diffynyddion rhwng 14-17 oed (9%), 18-24 oed (22%) a rheiny rhwng 25-59 oed (63%) oedd y categorïau mwyaf niferus yn cyfrif am 94% o ddiffynyddion yn debyg i 2008-09 pan gofnodwyd bod 95% o ddiffynyddion yn y bandiau oed yma. Roedd ychydig dros 2% rhwng 60-69 oed yn debyg i 2008-09 pan gofnodwyd bod bron i 3% o ddiffynyddion yn y categori hwn.

### *(ii) Dioddefwyr*

**Rhyw**

Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw'r dioddefwyr. Mae data ar ddioddefwyr yn cael eu tynnu o'r System Reoli Tystion, ac maent ar gael ar gyfer troseddau yn erbyn yr unigolyn hŷn o Ebrill 2008. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn dal i gael ei datblygu. O'r dioddefwyr hynny y dynodwyd eu rhyw yn 2009-10, roedd 59% yn ferched a 41% yn ddynion yn debyg i'r flwyddyn flaenorol.

**Tabl 7 – Rhyw Dioddefwyr ***




| | 2008-09 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 303 | 36.0% | 924 | 45.4% |
| Dynion | 203 | 24.1% | 648 | 31.9% |
| Ni wyddys | 335 | 39.8% | 457 | 22.5% |
| **Cyfanswm** | **841** | | **2,029** | |

*Mae'r data yn adrodd dioddefwyr sy'n sifiliaid yn unig

**Data cydraddoldeb arall**

Mae data ar ethnigrwydd, crefydd neu gredo, oed ac anabledd ar gael o Ebrill 2008. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn dal i gael ei datblygu – er enghraifft mae 58% ethnigrwydd y dioddefwr yn parhau heb ei ddatgan neu heb ei ddarparu a nodir bod 28% o ddata band oed wedi ei gofnodi fel heb ei ddarparu, felly nid yw'r data hwn wedi ei gynnwys yn yr adroddiad presennol.  Mae gwaith yn parhau yn 2010-11 i wella casglu data a'i ansawdd.

| Cyfanswm Trosedd Casineb | 2009-10 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Rhanbarth** | **11,405** | **81.9%** | **2,516** | **18.1%** | **13,921** |
| **Cymru/Wales** | **552** | **82.6%** | **116** | **17.4%** | **668** |
| Dyfed Powys | 46 | 80.7% | 11 | 19.3% | **57** |
| Gwent | 88 | 88.0% | 12 | 12.0% | **100** |
| North Wales | 178 | 79.1% | 47 | 20.9% | **225** |
| South Wales | 240 | 83.9% | 46 | 16.1% | **286** |
| **Eastern** | **618** | **83.7%** | **120** | **16.3%** | **738** |
| Cambridgeshire | 106 | 80.3% | 26 | 19.7% | **132** |
| Essex | 241 | 79.8% | 61 | 20.2% | **302** |
| Norfolk | 129 | 88.4% | 17 | 11.6% | **146** |
| Suffolk | 142 | 89.9% | 16 | 10.1% | **158** |
| **East Midlands** | **938** | **85.6%** | **158** | **14.4%** | **1,096** |
| Derbyshire | 200 | 85.5% | 34 | 14.5% | **234** |
| Leicestershire | 302 | 86.5% | 47 | 13.5% | **349** |
| Lincolnshire | 78 | 83.9% | 15 | 16.1% | **93** |
| Northamptonshire | 66 | 85.7% | 11 | 14.3% | **77** |
| Nottinghamshire | 292 | 85.1% | 51 | 14.9% | **343** |
| **London** | **1,547** | **73.9%** | **547** | **26.1%** | **2,094** |
| **Merseyside & Cheshire** | **581** | **77.1%** | **173** | **22.9%** | **754** |
| Cheshire | 162 | 80.2% | 40 | 19.8% | **202** |
| Merseyside | 419 | 75.9% | 133 | 24.1% | **552** |
| **North East** | **603** | **82.2%** | **131** | **17.8%** | **734** |
| Cleveland | 111 | 82.2% | 24 | 17.8% | **135** |
| Durham | 119 | 81.0% | 28 | 19.0% | **147** |
| Northumbria | 373 | 82.5% | 79 | 17.5% | **452** |
| **North West** | **1,638** | **83.5%** | **324** | **16.5%** | **1,962** |
| Cumbria | 99 | 88.4% | 13 | 11.6% | **112** |
| Greater Manchester | 983 | 83.2% | 198 | 16.8% | **1,181** |
| Lancashire | 556 | 83.1% | 113 | 16.9% | **669** |
| **South East** | **620** | **82.4%** | **132** | **17.6%** | **752** |
| Kent | 205 | 84.7% | 37 | 15.3% | **242** |
| Surrey | 117 | 92.1% | 10 | 7.9% | **127** |
| Sussex | 298 | 77.8% | 85 | 22.2% | **383** |
| **South West** | **618** | **86.8%** | **94** | **13.2%** | **712** |
| Avon & Somerset | 301 | 86.5% | 47 | 13.5% | **348** |
| Devon & Cornwall | 206 | 86.9% | 31 | 13.1% | **237** |
| Gloucestershire | 111 | 87.4% | 16 | 12.6% | **127** |
| **Thames & Chiltern** | **723** | **84.4%** | **134** | **15.6%** | **857** |
| Bedfordshire | 112 | 89.6% | 13 | 10.4% | **125** |
| Hertfordshire | 254 | 82.5% | 54 | 17.5% | **308** |
| Thames Valley | 357 | 84.2% | 67 | 15.8% | **424** |
| **Wessex** | **614** | **81.4%** | **140** | **18.6%** | **754** |
| Dorset | 88 | 83.3% | 17 | 16.2% | **105** |
| Hampshire & IOW | 446 | 82.3% | 96 | 17.7% | **542** |
| Wiltshire | 80 | 74.8% | 27 | 25.2% | **107** |
| **West Midlands** | **1,310** | **83.6%** | **257** | **16.4%** | **1,567** |
| Staffordshire | 183 | 88.4% | 24 | 11.6% | **207** |
| Warwickshire | 100 | 88.5% | 13 | 11.5% | **113** |
| West Mercia | 180 | 84.5% | 33 | 15.5% | **213** |
| West Midlands | 847 | 81.9% | 187 | 18.1% | **1,034** |
| **Yorkshire & Humberside** | **1,043** | **84.6%** | **190** | **15.4%** | **1,233** |
| Humberside | 179 | 92.7% | 14 | 7.3% | **193** |
| North Yorkshire | 92 | 81.4% | 21 | 18.6% | **113** |
| South Yorkshire | 273 | 87.5% | 39 | 12.5% | **312** |
| West Yorkshire | 499 | 81.1% | 116 | 18.9% | **615** |

| Troseddau Hiliol a Chrefyddol | 2009-10 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Rhanbarth** | **9,993** | **82.4%** | **2,138** | **17.6%** | **12,131** |
| **Cymru/Wales** | **453** | **82.4%** | **97** | **17.6%** | **550** |
| Dyfed Powys | 31 | 79.5% | 8 | 20.5% | **39** |
| Gwent | 77 | 87.5% | 11 | 12.5% | **88** |
| North Wales | 138 | 79.8% | 35 | 20.2% | **173** |
| South Wales | 207 | 82.8% | 43 | 17.2% | **250** |
| **Eastern** | **541** | **84.3%** | **101** | **15.7%** | **642** |
| Cambridgeshire | 102 | 82.3% | 22 | 17.7% | **124** |
| Essex | 212 | 80.3% | 52 | 19.7% | **264** |
| Norfolk | 104 | 88.9% | 13 | 11.1% | **117** |
| Suffolk | 123 | 89.8% | 14 | 10.2% | **137** |
| **East Midlands** | **833** | **86.2%** | **133** | **13.8%** | **966** |
| Derbyshire | 181 | 86.6% | 28 | 13.4% | **209** |
| Leicestershire | 266 | 86.4% | 42 | 13.6% | **308** |
| Lincolnshire | 71 | 84.5% | 13 | 15.5% | **84** |
| Northamptonshire | 56 | 86.2% | 9 | 13.8% | **65** |
| Nottinghamshire | 259 | 86.3% | 41 | 13.7% | **300** |
| **London** | **1,362** | **74.5%** | **467** | **25.5%** | **1,829** |
| **Merseyside & Cheshire** | **479** | **76.8%** | **145** | **23.2%** | **624** |
| Cheshire | 140 | 82.4% | 30 | 17.6% | **170** |
| Merseyside | 339 | 74.7% | 115 | 25.3% | **454** |
| **North East** | **534** | **82.3%** | **115** | **17.7%** | **649** |
| Cleveland | 102 | 82.9% | 21 | 17.1% | **123** |
| Durham | 89 | 80.9% | 21 | 19.1% | **110** |
| Northumbria | 343 | 82.5% | 73 | 17.5% | **416** |
| **North West** | **1,462** | **84.4%** | **271** | **15.6%** | **1,733** |
| Cumbria | 84 | 89.4% | 10 | 10.6% | **94** |
| Greater Manchester | 864 | 84.1% | 163 | 15.9% | **1,027** |
| Lancashire | 514 | 84.0% | 98 | 16.0% | **612** |
| **South East** | **530** | **83.6%** | **104** | **16.4%** | **634** |
| Kent | 187 | 83.9% | 36 | 16.1% | **223** |
| Surrey | 103 | 92.8% | 8 | 7.2% | **111** |
| Sussex | 240 | 80.0% | 60 | 20.0% | **300** |
| **South West** | **542** | **87.1%** | **80** | **12.9%** | **622** |
| Avon & Somerset | 265 | 86.6% | 41 | 13.4% | **306** |
| Devon & Cornwall | 183 | 88.0% | 25 | 12.0% | **208** |
| Gloucestershire | 94 | 87.0% | 14 | 13.0% | **108** |
| **Thames & Chiltern** | **663** | **84.4%** | **123** | **15.6%** | **786** |
| Bedfordshire | 100 | 89.3% | 12 | 10.7% | **112** |
| Hertfordshire | 238 | 83.2% | 48 | 16.8% | **286** |
| Thames Valley | 325 | 83.8% | 63 | 16.2% | **388** |
| **Wessex** | **515** | **81.9%** | **114** | **18.1%** | **629** |
| Dorset | 67 | 82.7% | 14 | 17.3% | **81** |
| Hampshire & IOW | 382 | 82.9% | 79 | 17.1% | **461** |
| Wiltshire | 66 | 75.9% | 21 | 24.1% | **87** |
| **West Midlands** | **1,148** | **84.0%** | **219** | **16.0%** | **1,367** |
| Staffordshire | 150 | 88.8% | 19 | 11.2% | **169** |
| Warwickshire | 90 | 90.9% | 9 | 9.1% | **99** |
| West Mercia | 146 | 85.9% | 24 | 14.1% | **170** |
| West Midlands | 762 | 82.0% | 167 | 18.0% | **929** |
| **Yorkshire & Humberside** | **931** | **84.6%** | **169** | **15.4%** | **1,100** |
| Humberside | 152 | 93.8% | 10 | 6.2% | **162** |
| North Yorkshire | 77 | 80.2% | 19 | 19.8% | **96** |
| South Yorkshire | 244 | 87.1% | 36 | 12.9% | **280** |
| West Yorkshire | 458 | 81.5% | 104 | 18.5% | **562** |

| Troseddau Homoffobig & Thrawsffobig | 2009-10 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Rhanbarth** | **929** | **80.6%** | **223** | **19.4%** | **1,152** |
| **Cymru/Wales** | **63** | **87.5%** | **9** | **12.5%** | **72** |
| Dyfed Powys | 8 | 88.9% | 1 | 11.1% | **9** |
| Gwent | 5 | 83.3% | 1 | 16.7% | **6** |
| North Wales | 25 | 83.3% | 5 | 16.7% | **30** |
| South Wales | 25 | 92.6% | 2 | 7.4% | **27** |
| **Eastern** | **46** | **80.7%** | **11** | **19.3%** | **57** |
| Cambridgeshire | 2 | 33.3% | 4 | 66.7% | **6** |
| Essex | 20 | 80.0% | 5 | 20.0% | **25** |
| Norfolk | 15 | 88.2% | 2 | 11.8% | **17** |
| Suffolk | 9 | 100.0% | 0 | 0.0% | **9** |
| **East Midlands** | **68** | **84.0%** | **13** | **16.0%** | **81** |
| Derbyshire | 11 | 84.6% | 2 | 15.4% | **13** |
| Leicestershire | 19 | 82.6% | 4 | 17.4% | **23** |
| Lincolnshire | 6 | 85.7% | 1 | 14.3% | **7** |
| Northamptonshire | 7 | 87.5% | 1 | 12.5% | **8** |
| Nottinghamshire | 25 | 83.3% | 5 | 16.7% | **30** |
| **London** | **134** | **74.0%** | **47** | **26.0%** | **181** |
| **Merseyside & Cheshire** | **79** | **83.2%** | **16** | **16.8%** | **95** |
| Cheshire | 17 | 70.8% | 7 | 29.2% | **24** |
| Merseyside | 62 | 87.3% | 9 | 12.7% | **71** |
| **North East** | **42** | **85.7%** | **7** | **14.3%** | **49** |
| Cleveland | 6 | 85.7% | 7 | 14.3% | **49** |
| Durham | 14 | 82.4% | 3 | 17.6% | **17** |
| Northumbria | 22 | 88.0% | 3 | 12.0% | **25** |
| **North West** | **122** | **73.9%** | **43** | **26.1%** | **165** |
| Cumbria | 8 | 72.7% | 3 | 27.3% | **11** |
| Greater Manchester | 80 | 74.8% | 27 | 25.2% | **107** |
| Lancashire | 34 | 72.3% | 13 | 27.7% | **47** |
| **South East** | **53** | **79.1%** | **14** | **20.9%** | **67** |
| Kent | 9 | 100.0% | 0 | 0.0% | **9** |
| Surrey | 8 | 100.0% | 0 | 0.0% | **8** |
| Sussex | 36 | 72.0% | 14 | 28.0% | **50** |
| **South West** | **40** | **85.1%** | **7** | **14.9%** | **47** |
| Avon & Somerset | 21 | 84.0% | 4 | 16.0% | **25** |
| Devon & Cornwall | 13 | 86.7% | 2 | 13.3% | **15** |
| Gloucestershire | 6 | 85.7% | 1 | 14.3% | **7** |
| **Thames & Chiltern** | **41** | **87.2%** | **6** | **12.8%** | **47** |
| Bedfordshire | 7 | 87.5% | 1 | 12.5% | **8** |
| Hertfordshire | 13 | 76.5% | 4 | 23.5% | **17** |
| Thames Valley | 21 | 95.5% | 1 | 4.5% | **22** |
| **Wessex** | **69** | **78.4%** | **19** | **21.6%** | **88** |
| Dorset | 14 | 87.5% | 2 | 12.5% | **16** |
| Hampshire & IOW | 49 | 79.0% | 13 | 21.0% | **62** |
| Wiltshire | 6 | 60.0% | 4 | 40.0% | **10** |
| **West Midlands** | **100** | **84.7%** | **18** | **15.3%** | **118** |
| Staffordshire | 21 | 95.5% | 1 | 4.5% | **22** |
| Warwickshire | 6 | 75.0% | 2 | 25.0% | **8** |
| West Mercia | 21 | 91.3% | 2 | 8.7% | **23** |
| West Midlands | 52 | 80.0% | 13 | 20.0% | **65** |
| **Yorkshire & Humberside** | **72** | **84.7%** | **13** | **15.3%** | **85** |
| Humberside | 16 | 94.1% | 1 | 5.9% | **17** |
| North Yorkshire | 8 | 80.0% | 2 | 20.0% | **10** |
| South Yorkshire | 18 | 90.0% | 2 | 10.0% | **20** |
| West Yorkshire | 30 | 78.9% | 8 | 21.1% | **38** |

| Troseddau Casineb Anabledd | 2009-10 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Rhanbarth** | **483** | **75.7%** | **155** | **24.3%** | **638** |
| **Cymru/Wales** | **36** | **78.3%** | **10** | **21.7%** | **46** |
| Dyfed Powys | 7 | 77.8% | 2 | 22.2% | **9** |
| Gwent | 6 | 100.0% | 0 | 0.0% | **6** |
| North Wales | 15 | 68.2% | 7 | 31.8% | **22** |
| South Wales | 8 | 88.9% | 1 | 11.1% | **9** |
| **Eastern** | **31** | **79.5%** | **8** | **20.5%** | **39** |
| Cambridgeshire | 2 | 100.0% | 0 | 0.0% | **2** |
| Essex | 9 | 69.2% | 4 | 30.8% | **13** |
| Norfolk | 10 | 83.3% | 2 | 16.7% | **12** |
| Suffolk | 10 | 83.3% | 2 | 16.7% | **12** |
| **East Midlands** | **37** | **75.5%** | **12** | **24.5%** | **49** |
| Derbyshire | 8 | 66.7% | 4 | 33.3% | **12** |
| Leicestershire | 17 | 94.4% | 1 | 5.6% | **18** |
| Lincolnshire | 1 | 50.0% | 1 | 50.0% | **2** |
| Northamptonshire | 3 | 75.0% | 1 | 25.0% | **4** |
| Nottinghamshire | 8 | 61.5% | 5 | 38.5% | **13** |
| **London** | **51** | **60.7%** | **33** | **39.3%** | **84** |
| **Merseyside & Cheshire** | **23** | **65.7%** | **12** | **34.3%** | **35** |
| Cheshire | 5 | 62.5% | 3 | 37.5% | **8** |
| Merseyside | 18 | 66.7% | 9 | 33.3% | **27** |
| **North East** | **27** | **75.0%** | **9** | **25.0%** | **36** |
| Cleveland | 3 | 60.0% | 2 | 40.0% | **5** |
| Durham | 16 | 80.0% | 4 | 20.0% | **20** |
| Northumbria | 8 | 72.7% | 3 | 27.3% | **11** |
| **North West** | **54** | **84.4%** | **10** | **15.6%** | **64** |
| Cumbria | 7 | 100.0% | 0 | 0.0% | **7** |
| Greater Manchester | 39 | 83.0% | 8 | 17.0% | **47** |
| Lancashire | 8 | 80.0% | 2 | 20.0% | **10** |
| **South East** | **37** | **72.5%** | **14** | **27.5%** | **51** |
| Kent | 9 | 90.0% | 1 | 10.0% | **10** |
| Surrey | 6 | 75.0% | 2 | 25.0% | **8** |
| Sussex | 22 | 66.7% | 11 | 33.3% | **33** |
| **South West** | **36** | **83.7%** | **16.3%** | **43** | |
| Avon & Somerset | 15 | 88.2% | 2 | 11.8% | **17** |
| Devon & Cornwall | 10 | 71.4% | 4 | 28.6% | **14** |
| Gloucestershire | 11 | 91.7% | 1 | 8.3% | **12** |
| **Thames & Chiltern** | **19** | **79.2%** | **5** | **20.8%** | **24** |
| Bedfordshire | 5 | 100.0% | 0 | 0.0% | **5** |
| Hertfordshire | 3 | 60.0% | 2 | 40.0% | **5** |
| Thames Valley | 11 | 78.6% | 3 | 21.4% | **14** |
| **Wessex** | **30** | **81.1%** | **7** | **18.9%** | **37** |
| Dorset | 7 | 87.5% | 1 | 12.5% | **8** |
| Hampshire & IOW | 15 | 78.9% | 4 | 21.1% | **19** |
| Wiltshire | 8 | 80.0% | 2 | 20.0% | **10** |
| **West Midlands** | **62** | **75.6%** | **20** | **24.4%** | **82** |
| Staffordshire | 12 | 75.0% | 4 | 25.0% | **16** |
| Warwickshire | 4 | 66.7% | 2 | 33.3% | **6** |
| West Mercia | 13 | 65.0% | 7 | 35.0% | **20** |
| West Midlands | 33 | 82.5% | 7 | 17.5% | **40** |
| **Yorkshire & Humberside** | **40** | **83.3%** | **8** | **16.7%** | **48** |
| Humberside | 11 | 78.6% | 3 | 21.4% | **14** |
| North Yorkshire | 7 | 100.0% | 0 | 0.0% | **7** |
| South Yorkshire | 11 | 91.7% | 1 | 8.3% | **12** |
| West Yorkshire | 11 | 73.3% | 4 | 26.7% | **15** |

| Cyfanswm Trosedd yn erbyn Unigolion Hŷn | 2009-10 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Rhanbarth** | **1,641** | **82.3%** | **352** | **17.7%** | **1,993** |
| **Cymru/Wales** | **101** | **78.%** | **28** | **21.7%** | **129** |
| Dyfed Powys | 14 | 87.5% | 2 | 12.5% | **16** |
| Gwent | 12 | 85.7% | 2 | 14.3% | **14** |
| North Wales | 22 | 75.9% | 7 | 24.1% | **29** |
| South Wales | 53 | 75.7% | 17 | 24.3% | **70** |
| **Eastern** | **81** | **81.0%** | **19** | **19.0%** | **100** |
| Cambridgeshire | 20 | 80.0% | 5 | 20.0% | **25** |
| Essex | 19 | 79.2% | 5 | 20.8% | **24** |
| Norfolk | 24 | 82.8% | 5 | 17.2% | **29** |
| Suffolk | 18 | 81.8% | 4 | 18.2% | **22** |
| **East Midlands** | **101** | **80.8%** | **24** | **19.2%** | **125** |
| Derbyshire | 27 | 79.4% | 7 | 20.6% | **34** |
| Leicestershire | 19 | 79.2% | 5 | 20.8% | **24** |
| Lincolnshire | 22 | 95.7% | 1 | 4.3% | **23** |
| Northamptonshire | 2 | 66.7% | 1 | 33.3% | **3** |
| Nottinghamshire | 31 | 75.6% | 10 | 24.4% | **41** |
| **London** | **169** | **77.9%** | **48** | **22.1%** | **217** |
| **Merseyside & Cheshire** | **71** | **78.0%** | **20** | **22.0%** | **91** |
| Cheshire | 31 | 81.6% | 7 | 18.4% | **38** |
| Merseyside | 40 | 75.5% | 13 | 24.5% | **53** |
| **North East** | **116** | **89.2%** | **14** | **10.8%** | **130** |
| Cleveland | 29 | 87.9% | 4 | 12.1% | **33** |
| Durham | 31 | 93.9% | 2 | 6.1% | **33** |
| Northumbria | 56 | 87.5% | 8 | 12.5% | **64** |
| **North West** | **183** | **86.3%** | **29** | **13.7%** | **212** |
| Cumbria | 15 | 62.5% | 9 | 37.5% | **24** |
| Greater Manchester | 119 | 88.1% | 16 | 11.9% | **135** |
| Lancashire | 49 | 92.5% | 4 | 7.5% | **53** |
| **South East** | **159** | **87.4%** | **23** | **12.6%** | **182** |
| Kent | 44 | 88.0% | 6 | 12.0% | **50** |
| Surrey | 24 | 88.9% | 3 | 11.1% | **27** |
| Sussex | 91 | 86.7% | 14 | 13.3% | **105** |
| **South West** | **99** | **91.7%** | **9** | **8.3%** | **108** |
| Avon & Somerset | 45 | 93.8% | 3 | 6.3% | **48** |
| Devon & Cornwall | 15 | 93.8% | 1 | 6.3% | **16** |
| Gloucestershire | 39 | 88.6% | 5 | 11.4% | **44** |
| **Thames & Chiltern** | **97** | **74.6%** | **33** | **25.4%** | **130** |
| Bedfordshire | 9 | 75.0% | 3 | 25.0% | **12** |
| Hertfordshire | 32 | 82.1% | 7 | 17.9% | **39** |
| Thames Valley | 56 | 70.9% | 23 | 29.1% | **79** |
| **Wessex** | **87** | **82.1%** | **19** | **17.9%** | **106** |
| Dorset | 26 | 89.7% | 3 | 10.3% | **29** |
| Hampshire & IOW | 41 | 74.5% | 14 | 25.5% | **55** |
| Wiltshire | 20 | 90.9% | 2 | 9.1% | **22** |
| **West Midlands** | **229** | **77.9%** | **65** | **22.1%** | **294** |
| Staffordshire | 39 | 73.6% | 14 | 26.4% | **53** |
| Warwickshire | 27 | 93.1% | 2 | 6.9% | **29** |
| West Mercia | 53 | 81.5% | 12 | 18.5% | **65** |
| West Midlands | 110 | 74.8% | 37 | 25.2% | **147** |
| **Yorkshire & Humberside** | **148** | **87.6%** | **21** | **12.4%** | **169** |
| Humberside | 48 | 87.3% | 7 | 12.7% | **55** |
| North Yorkshire | 10 | 90.9% | 1 | 9.1% | **11** |
| South Yorkshire | 45 | 95.7% | 2 | 4.3% | **47** |
| West Yorkshire | 45 | 80.4% | 11 | 19.6% | **56** |

# Geira

## TROSEDDAU CASINEB

| | |
|---|---|
| Digwyddiadau Hiliol & Chrefyddol: | digwyddiad hiliol neu grefyddol yw unrhyw ddigwyddiad y'i canfyddir i fod yn hiliol gan y dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall. |
| Trosedd Homoffobig: | unrhyw ddigwyddiad y'i canfyddir i fod yn homoffobig neu drawsffobig gan y dioddefwr neu gan unrhyw unigolyn arall. |
| Digwyddiadau Anabledd: | unrhyw ddigwyddiad ble mae anabledd yn ffactor yn y drosedd. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddigwyddiad y'i canfyddir gan y dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall i fod yn seiliedig ar ragfarn yn erbyn, neu gasineb o'r dioddefwr oherwydd ei anabledd, ac/neu ble mae'r dioddefwr wedi'i dargedu oherwydd ei fregusrwydd canfyddedig. |
| **Baneri monitro:** | dynodir achosion o fath sensitif trwy ddefnyddio nifer o faneri monitro, a osodir ar achosion perthnasol ar y cam cyn cyhuddo. Mae'r baneri'n caniatáu i reolwyr fonitro'r achosion yn ystod oes yr erlyniad, a galluogi adrodd ar ganlyniadau yn dilyn diwedd yr achos. |
| **Trosedd yn erbyn unigolyn hŷn:** | Troseddau yn y categorïau isod, ble mae'r dioddefwr dros 60 oed:<br><br>• ble mae perthynas a disgwyliad o ymddiriedaeth, er enghraifft, dwyn neu ymosodiad gan ofalwr neu aelod teuluol; neu<br>• ble mae'r unigolyn hŷn yn cael ei dargedu'n benodol oherwydd y canfyddiad bod ei fod yn fregus neu'n darged hawdd, er enghraifft, byrgleriaeth drwy dynnu sylw neu mygio; neu<br>• nad yw'n gysylltiedig i ddechrau ag oedran yr unigolyn hŷn ond mae'n dod felly yn nes ymlaen, er enghraifft, byrgleriaeth ble nad yw'r lleidr yn gwybod oedran perchennog y tŷ, ond mae'n ddiweddarach yn manteisio ar y sefyllfa pan yn canfod bod y perchennog tŷ'n unigolyn hŷn; neu<br>• sydd wedi'u cymell yn rhannol neu'n llwyr gan elyniaeth yn seiliedig ar oedran, neu oedran canfyddedig. Er enghraifft, ymosodiad, aflonyddu neu ymddygiad gwrth gymdeithasol yn cynnwys gwneud sylwadau sarhaus sy'n gysylltiedig ag oed y dioddefwr. |

## CANLYNIADAU ACHOSION

| | |
|---|---|
| **Penderfyniadau cyn cyhuddo:** | Ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf, a phan ddisgwylir ple euog, Erlynyddion y Goron sy'n gyfrifol am benderfynu p'un a ddylid cyhuddo unigolyn gyda throsedd ac, os felly, pa drosedd ddylai honno fod, yn unol â chanllawiau'r Cyfarwyddwr. |
| Wedi'i gyhuddo: | achosion lle penderfynodd y CPS y dylid cyhuddo. |
| Cais am dystiolaeth bellach: | ble gwneir cais am ragor o wybodaeth neu weithredu, neu lle'r ystyrir hynny'n angenrheidiol. |

| | |
|---|---|
| Dim erlyniad: | achosion lle bydd y CPS yn penderfynu na ddylid erlyn, am resymau tystiolaethol neu am resymau budd y cyhoedd. |
| Pob penderfyniad arall: | ble rhoddir rhybudd, cerydd neu rybudd terfynol; ble cafodd y drosedd ei hystyried mewn perthynas â chyhuddiadau eraill; neu lle methodd y diffynnydd ateb i fechnïaeth a bod gwarant wedi'i chyflwyno. |
| **Erlyniadau:** | yr holl ddiffynyddion a gyhuddwyd neu a dderbyniodd wŷs ac y cwblhawyd yr achos yn llys yr ynadon neu Lys y Goron yn ystod y cyfnod, gan gynnwys y rhai a aeth ymlaen i dreial neu bledio'n euog, y rhai a derfynwyd a'r rhai na ellid bwrw ymlaen â nhw. |
| Canlyniadau Aflwyddiannus: | yr holl erlyniadau a gwblhawyd ble na chafodd y diffynnydd ei euogfarnu, sy'n cynnwys y canlynol: |
| Terfynu a thynnu'n ôl: | O ystyried y dystiolaeth a budd y cyhoedd, gall y CPS benderfynu terfynu achosion ar unrhyw adeg cyn dechrau'r treial. Yma fe gynhwysir achosion a derfynir yn ffurfiol cyn y gwrandawiad, y rhai ble na chynigiwyd unrhyw dystiolaeth, a'r rhai a dynnir yn ôl yn y llys. Yma hefyd cynhwysir achosion lle cafodd y diffynnydd ei rwymo i gadw'r heddwch. |
| Gwrthod ar ôl treial llawn: | achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac y bydd yr ynadon yn gwrthod yr achos ar ôl gwrando achos yr amddiffyniad. |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu: | achosion ble ar ddiwedd achos yr erlyniad yn erbyn y diffynnydd, y gwneir cyflwyniad llwyddiannus o 'ddim achos' neu 'anniogel' ar ran y diffynnydd, a'r barnwr yn cyfarwyddo rhyddfarnu yn hytrach na gadael i'r rheithgor benderfynu'r achos. |
| Rhyddfarnu gan reithgor: | pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac, yn dilyn treial, yn cael ei ryddfarnu gan y rheithgor. |
| Yr Holl Ganlyniadau Aflwyddiannus Eraill: | yn cynnwys terfyniadau gweinyddol, traddodebau a ryddhawyd, a dim achos i'w ateb. |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol: | pan na all erlyniad fynd yn ei flaen oherwydd bod diffynnydd wedi methu ymddangos yn y llys a Gwarant gan y Fainc wedi'i chyflwyno i'w arestio ef neu hi; neu fod y diffynnydd wedi marw; neu nad yw'n ffit i bledio: neu lle bo achosion yn cael eu gohirio yn amhenodol. |
| Traddodeb a ryddheir | achos traddodi ble y rhyddheir y diffynnydd. |
| Dim achos i'w ateb: | achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac y gwrandewir tystiolaeth yr erlyniad, ond y gwrthodir yr achos gan yr ynadon heb wrando achos yr amddiffyniad. |
| Euogfarnau: | achos lle ceir y diffynnydd yn euog yn dilyn erlyniad, sy'n cynnwys: |
| Ple euog: | lle bydd y diffynnydd yn pledio'n euog. |

| | |
|---|---|
| Euogfarn yn dilyn achos: | achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog, ond yn cael ei ddyfarnu'n euog ar ôl gwrando'r dystiolaeth. |
| Prawf yn absenoldeb: | mae'r rhain yn droseddau llai - materion modura gan fwyaf – sy'n cael eu clywed gan y llys yn absenoldeb y diffynnydd. |

**Categorïau Rhesymau dros Ganlyniadau Aflwyddiannus**

| | |
|---|---|
| Tystiolaethol: | ble bo'r erlynydd yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn. |
| Budd y cyhoedd: | ble'r ystyrir bod digon o dystiolaeth, ond bod yr erlynydd yn penderfynu bod ffactorau budd y cyhoedd yn erbyn erlyniad. |
| Methu parhau: | lle bo'r dystiolaeth a budd y cyhoedd yn cefnogi erlyniad, ond fod amgylchiadau yn ei gwneud hi'n amhosib i'r achos fynd yn ei flaen. |
| Rhesymau eraill: | ble bydd y diffynnydd yn cael ei rwymo, rhyddfarnu neu wrthod ar ôl achos, neu ble nad oes unrhyw ddewis arall yn briodol. |
| Cwblhau gwaith gweinyddol: | pan na all erlyniad fynd yn ei flaen oherwydd bod diffynnydd wedi methu ymddangos yn y llys a Gwarant gan y Fainc wedi'i chyflwyno i'w arestio ef neu hi; neu fod y diffynnydd wedi marw; neu nad yw'n ffit i bledio: neu lle bo achosion yn cael eu gohirio yn amhenodol.. |

**Rhesymau dros Ganlyniadau Aflwyddiannus**

| | |
|---|---|
| Dioddefwr yn tynnu'n ôl: | ble bo tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi achos yr erlyniad, y dioddefwr yn gwrthod cael ei alw i dystio, neu'n tynnu'n ôl, neu'n tynnu'r gŵyn yn ôl. |
| Dioddefwr ddim yn mynychu: | gelwir y dioddefwr yn dyst mewn achos, ond bydd yn methu mynychu'r llys. |
| Tystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos: | nid yw tystiolaeth y dioddefwr am y drosedd yn cefnogi erlyn y diffynnydd, gan arwain at ganlyniad aflwyddiannus, ond, serch hynny, nad yw'r dioddefwr wedi tynnu'n ôl. |
| Gwrthdaro tystiolaeth: | gwrthgyferbyniadau mewn tystiolaeth erlyniad yn arwain at erlyniad aflwyddiannus. |
| Elfen gyfreithiol hanfodol: | ni all yr erlyniad barhau oherwydd bod elfen gyfreithiol hanfodol ar goll o achos yr erlyniad. |
| Ditiad neu ddedfryd arall: | nid yw'r achos yn mynd ymlaen oherwydd bod yr un diffynnydd yn destun ditmentau neu ddedfrydau eraill yn achos achosion eraill. |
| Rhyddfarnau ar ôl yr achos: | mae'r diffynnydd yn ei gael yn ddieuog gan ynadon neu reithgor ar ôl gwrandawiad sy'n cael ei herio pan fo'r amddiffyniad yn cael ei alw i gyflwyno'i achos |
| Categori'r prif drosedd: | bydd troseddau a gyhuddir yn cael eu dyrannu i un o ddeuddeg categori trosedd er mwyn dangos y math o drosedd a difrifoldeb y cyhuddiadau a ddwynir yn erbyn y diffynnydd. |

Gallwch lawrlwytho rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn
mewn PDF Adobe Acrobat ar wefan y CPS

**www.cps.gov.uk**

**Rhagfyr 2010**